wPecyn Dogfen Cyhoeddus

CYNGOR Sir Ddinbych Denbighshire COUNTY COUNCIL

| | | | |
|---|---|---|---|
| At: | Gadeirydd ac Aelodau'r Cabinet | Dyddiad: | Dydd Llun, 11 Mehefin 2012 |
| | | Rhif Union: | 01824706141 |
| | | ebost: | dcc_admin@denbighshire.gov.uk |

Annwyl Gynghorydd

Fe'ch gwahoddir i fynychu cyfarfod y **CABINET, DYDD MAWRTH, 19 MEHEFIN 2012** am **10.00 am** yn **YSTAFELL BWYLLGOR 1A, NEUADD Y SIR, RHUTHUN**.

Yn gywir iawn

G Williams
Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd

**AGENDA**

**1 YMDDIHEURIADAU**

**2 DATGAN BUDDIANNAU**

Yr Aelodau i ddatgan unrhyw fuddiant personol neu fuddiant sy'n rhagfarnu unrhyw fusnes i'w drafod yn y cyfarfod hwn.

**3 MATERION BRYS**

Hysbysiad o eitemau y dylid, ym marn y Cadeirydd, eu hystyried yn y cyfarfod fel materion brys dan Adran 100B(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972.

**4 COFNODION** (Tudalennau 1 - 10)

Derbyn cofnodion cyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar 24ain Ebrill, 2012 [copi'n amgaeëdig].

**5 ADRODDIAD PERFFORMIAD CORFFORAETHOLL: CHWARTER 4 2011/12** (Tudalennau 11 - 40)

Ystyried adroddiad gan y Cynghorydd H H Evans, Arweinydd y Cyngor (copi'n amgaeëdig) yn rhoi gwybodaeth ar feysydd perfformiad allweddol y Cyngor, a galluogi i'r Cabinet ymgymryd â'i swyddogaeth rheoli perfformiad.

**6 ALLDRO ARIANNOL 2011/12** (Tudalennau 41 - 58)

Ystyried adroddiad gan y Cynghorydd Julian Thompson-Hill, Aelod Arweiniol Cyllid ac Asedau (copi'n amgaeëdig) ar yr alldro refeniw terfynol ar gyfer 2011/12 ac argymhell y sefyllfa i'r Cyngor Llawn. Hefyd argymell i'r Cyngor sut dylid trin y cronfeydd wrth gefn a'r balansau fel y manylwyd yn yr adroddiad.

**7 DIWEDDARIAD ARIANNOL 2012/13** (Tudalennau 59 - 70)

Ystyried adroddiad gan y Cynghorydd Julian Thompson-Hill, Aelod Arweiniol Cyllid ac Asedau (copi'n amgaeëdig) i'r Aelodau gydnabod y cyllidebau a'r targedau arbed ar gyfer y flwyddyn a'r cynnydd mewn perthynas â'r strategaeth gyllidebol a gytunwyd.

**8 RHAGLEN WAITH Y CABINET I'R DYFODOL** (Tudalennau 71 - 72)

Cydnabod Rhaglen amgaeëdig o Waith y Cabinet i'r Dyfodol a chydnabod y cynnwys.

**GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD**

Argymhellir yn unol ag Adran 100A(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972 bod y Wasg a'r Cyhoedd yn cael eu gwahardd o'r cyfarfod wrth ystyried yr eitem ganlynol oherwydd ei bod yn debygol y byddai gwybodaeth eithriedig (fel y diffinnir ym mharagraff 14 Rhan 4 Atodlen 12A i'r Ddeddf) yn cael ei datgelu.

**9 ABBA (AROS BYW BOD ADREF) DYFARNU CONTRACT PROSIECT CYMORTH FEL Y BO'R ANGEN** (Tudalennau 73 - 74)

Ystyried adroddiad cyfrinachol gan y Cynghorydd Bobby Feeley, Aelod Arweiniol Gofal Cymdeithasol a Gwasanaethau Plant (copi'n amgaeëdig) ar argymhelliad i ddyfarnu contract 24 mis (gyda'r opsiwn i'w ymestyn am flwyddyn neu ddwy arall) i Cymryd Rhan.

**10 ARDALOEDD GORCHYMYN PRYNIANT GORFODOL AR GYFER RHODFA'R GORLLEWIN, Y RHYL** (Tudalennau 75 - 84)

Ystyried adroddiad cyfrinachol gan y Cynghorydd Julian Thompson-Hill, Aelod Arweiniol Cyllid ac Asedau (copi'n amgaeëdig) i gymeradwyo caffael Teitl trwy ddefnyddio Gorchymyn Pryniant Gorfodol ar gyfer tir y tu ôl i 21-37 Rhodfa'r Gorllewin ac yn cyffinio Maes Parcio Crescent Road, y Rhyl.

**MEMBERSHIP**

**Y Cynghorwyr**

Hugh Evans
Julian Thompson-Hill
Eryl Williams
Bobby Feeley
Hugh Irving
Huw Jones
Barbara Smith
David Smith

**COPIAU I'R:**

Holl Gynghorwyr er gwybodaeth
Y Wasg a'r Llyfrgelloedd
Cynghorau Tref a Chymuned

Prif Weithredwr / Chief Executive Mohammed Mehmet PhD BSc
Prif Swyddfeydd Y Cyngor/Council Offices, Rhuthun/Ruthin, Sir Ddinbych/Denbighshire LL15 1YN.
Ffôn/Tel (01824) 706234 Ffacs/Fax (01824) 707446

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

# CABINET

Cofnodion cyfarfod o'r Cabinet a gynhaliwyd yn Ystafell Gynhadledd 1a, Neuadd y Sir, Rhuthun, Dydd Mawrth, 24 Ebrill 2012 am 10.00 am.

## YN BRESENNOL

Y Cynghorwyr Hugh Evans (Cadeirydd), Julian Thompson-Hill a/ac Eryl Williams

## HEFYD YN BRESENNOL

Corporate Director: Demographics, Well-being a (Corporate Director: Demographics, Well-being and Planning), B Jones (Corporate Director: Business Transformation and Regeneration), Acting Head of Finance and Assets (Acting Head of Finance and Assets), Prif Weithredwr (Prif Weithredwr), Gary Williams (Head of Legal and Democratic Services) a/ac Hywyn Williams (Corporate Director: Communities and Learning)
Y Cynghorydd Ray Bartley, Y Cynghorydd Bill Cowie, Y Cynghorydd Meirick Lloyd Davies, Y Cynghorydd Gwilym C Evans, Y Cynghorydd Diana Hannam, Y Cynghorydd Colin Hughes, Y Cynghorydd Rhys Hughes, Y Cynghorydd Gwyneth Kensler, Y Cynghorydd Peter Owen, Y Cynghorydd David Smith a/ac Y Cynghorydd Selwyn Thomas

## 1 YMDDIHEURIADAU

Ni dderbyniwyd unrhyw ymddiheuriadau.

## 2 DATGAN BUDDIANNAU

Gwahoddwyd yr aelodau i ddatgan unrhyw fuddiannau personol neu fuddiannau sy'n rhagfarnu unrhyw faterion i'w hystyried yn y cyfarfod.

***PENDERFYNWYD –*** *bod y Cabinet yn nodi nad oedd unrhyw ddatganiadau o fuddiant.*

## 3 MATERION BRYS

Yn unol â gofynion Adran 100B(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972, datganodd y Cadeirydd ei fod yn bwriadu cynnwys y materion canlynol er trafodaeth, a oedd angen sylw brys dan Ran II:-

(i) Ailddatblygu 21-26 Rhodfa'r Gorllewin, y Rhyl
(ii) Caniatâd i Ddymchwel 21-24 Rhodfa'r Gorllewin y Rhyl

## 4 COFNODION

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod a Cabinet a gynhaliwyd ar 20fed Mawrth 2012.

Cywirdeb: Eitem 13, y gair Tenor yn y pennawd yn fersiwn Cymraeg y cofnodion i'w newid i Tendr.

Materion yn codi:-

16. Prosiect Gwastraff Bwyd Rhanbarthol, Newid Cynigydd Dewisol – hysbysbodd y Cynghorydd J Thompson-Hill yr Aelodau bod y dyddiad cau bellach wedi mynd heibio a bod trafodaethau wedi eu cychwyn gyda'r cynigydd wrth gefn.

***PENDERFYNWYD:*** *cymeradwyo Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 20fed Mawrth 2012 fel cofnod cywir a'u llofnodi gan yr Arweinydd.*

**5 ADRODDIAD CYLLID**

Cyflwynodd y Cynghorydd J. Thompson Hill yr adroddiad i'r Cabinet, a oedd yn manylu sefyllfa diwedd y flwyddyn a amcanestynnwyd ar gyfer cyllideb refeniw'r Cyngor a'r perfformiad mewn perthynas â'r strategaeth gyllidebol ar gyfer 2011/12 ar ddiwedd Mawrth 2012. Roedd hefyd yn rhoi diweddariad cryno o'r Cynllun Cyfalaf, y Cyfrif Refeniw Tai a'r Cynllun Cyfalaf Tai ac yn hysbysu'r aelodau o'r amcanestyniadau ariannol diweddaraf er mwyn cyflawni'r strategaeth gyllidebol a gytunwyd ar gyfer 2011/12 fel y diffinnir yn y Cynllun Ariannol Tymor Canol, y Cynllun Cyfalaf, a'r Cynllun Busnes Stoc Dai.

Roedd yr amcanestyniad cyllidebol refeniw diweddaraf, Atodiad 1, yn nodi tanwariant net o £841k ar wasanaethau'r Cyngor, £846k y mis diwethaf, a £500k ar gyllidebau corfforaethol, gan gynnwys darpariaeth ar gyfer llithriant yn nharged arbedion eleni o £300k. Roedd y sefyllfa ar gyfer ysgolion yn awgrymu gorwariant o £350k, £505k y mis diwethaf ac roedd manylion pellach perfformiad cyllideb adrannol wedi ei amlinellu yn yr adroddiad. Roedd crynodeb o'r Cyfrif Refeniw Tai, a oedd yn gronfa ar wahân ac nad oedd yn rhan o gyllideb refeniw'r Cyngor, hefyd wedi ei gynnwys yn Atodiad 1.

Roedd diweddariad yn dangos cynnydd o ran arbedion a phwysau a gytunwyd fel rhan o broses pennu cyllideb 2011/12 wedi ei gynnwys yn Atodiad 2. Rhwng popeth, cytunwyd arbedion net o £6.359 ac roedd £6.163m (97%) wedi ei gyflawni, gyda £0.136m (2%) yn dal ar y gweill. Eitemau "ar y gweill" oedd y rhai hynny na ellid eu cadarnhau nes byddai dadansoddiad wedi ei gwblhau ar ddiwedd y flwyddyn, er y dylid cyflawni'r cwbl, neu fel arall, eu hamnewid.

Cadarnhaodd y Cynghorydd Thompson-Hill mai dim ond mân newidiadau oedd i gyllidebau gwasanaeth unigol. Cyfeiriodd at amcanestyniad y Cyfrif Refeniw Tai a oedd yn awgrymu diffyg yn y flwyddyn o £1.306m, a oedd wedi ei gynllunio, £1.109m y mis diwethaf, o gymharu â chyllideb wreiddiol o £1.025m gyda'r diffyg tebygol ar hyn o bryd £281k yn uwch na'r gyllideb wreiddiol. Amlinellodd y rhesymau dros y cynnydd o £200k yn y gyllideb Atgyweirio a Chynnal a Chadw a chyfeirio at alldro tebygol Cynllun Cyfalaf Tai a oedd wedi cynyddu i £5.607m o gymharu â'r amcangyfrif a gyllidebwyd o £5.969m ar gyfer y flwyddyn.

Mewn ymateb i bryderon a fynegwyd gan y Cynghorydd P J Marfleet bod yr achos busnes MCP wedi ei lunio gan ddefnyddio cyfraddau llog llawer uwch na'r hyn yr oedd y Cyngor yn ei gael ar hyn o bryd, nac yn debygol o'u cael yn y tymor canol, a darpariaeth i sicrhau na fyddai bwlch ariannu yn y dyfodol, esboniodd y Pennaeth Cyllid ac Asedau bod yr MCP ym meddiant Banc a bod trafodaethau i brynu'r MCP wedi digwydd ond wedi bod yn aflwyddiannus. Esboniodd y byddai angen cynyddu'r gyllideb ar gyfer talu ar yr MCP, rhyw £50k y flwyddyn yn lle incwm buddsoddiad a gollwyd, ac y byddai'r swm yn dibynnu ar lefelau cyfraddau llog. Mynegodd y Cynghorydd Marfleet bryder bod Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi gwrthod cynorthwyo gydag ariannu i ddelio â'r mater a gofynnodd bod y mater hwn yn cael ei ddilyn a'i gynnwys fel eitem ar y rhaglen yn y dyfodol.

Mewn ymateb i gwestiwn gan y Cadeirydd mewn perthynas â balansau ysgolion a rhagolygon gostyngiad mewn balansau cyffredinol yn ystod y flwyddyn i ddod, cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol: Dysgu a Chymunedau bod gwelliant wedi ei ragweld ac nad oedd unrhyw ysgolion yn Sir Ddinbych ar hyn o bryd mewn anhawster difrifol.

Yn ysod y drafodaeth a ddilynodd, fe:-

***BENDERFYNWYD –*** *bod y Cabinet yn cydnabod y sefyllfa ariannol ddiweddaraf a chynnydd mewn perthynas â'r strategaeth gyllidebol a gytunwyd.*

## 6 CREU CRONFA WADDOL GYMUNEDOL SIR DDINBYCH

Cyflwynodd y Cynghorydd H.H. Evans adroddiad a oedd yn rhoi gwybodaeth ar nifer o gronfeydd ymddiriedolaeth marw neu aneffeithiol a'u hasedau cysylltiedig a weinyddwyd gan y Cyngor, ac yn argymell dull o ryddhau cyllid o'r cronfeydd hyn. Argymhellodd yr adroddiad, yn amodol ar gytundeb absoliwt y Comisiwn Elusennau, bod y cronfeydd ymddiriedolaeth marw ac aneffeithiol a'u hasedau cysylltiedig yn cael eu trosglwyddo i Gronfa Waddol Gymunedol arfaethedig Sir Ddinbych, i'w rheoli a'i gweinyddu gan y Sefydliad Cymunedol yng Nghymru.

Roedd manylion y cronfeydd a ddelid mewn ymddiriedolaeth gan y Cyngor wedi eu hamlinellu yn yr adroddiad gyda'r manylion wedi eu cynnwys yn Atodiad 2. Er mwyn rhwystro'r Cyngor rhag bod yn esgeulus o ran elusennau, roedd adolygiad o'r cronfeydd wedi ei wneud a phenderfynwyd bod 55 o ymddiriedolaethau addysg wedi eu canfod fel rhai marw neu aneffeithiol. Byddai angen cymryd camau i sicrhau bod y cronfeydd a'u hasedau cysylltiedig yn gweithio unwaith eto ac roedd y Comisiwn Elusennau yn awyddus i weld rhyddhau cymaint ag y bod modd o'r cronfeydd ymddiriedolaeth marw ac aneffeithiol sydd wedi eu cloi o fewn Awdurdodau Lleol, a bod y Comisiwn yn cefnogi rhyddhau'r cronfeydd hyn i gyrff elusennol arweiniol.

Pwysleisiodd y Cynghorydd Evans bwysigrwydd sicrhau bod amcanion gwreiddiol yr asedau yn cael eu parchu gymaint ag y bo modd a bod cynrychiolwyr y Cyngor a chynrychiolwyr lleol ar y Panel Grantiau.

Esboniodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol: Dysgu a Chymunedau bod y Sefydliad Cymunedol yng Nghymru wedi ei adnabod fel y corff i reoli'r cronfeydd a buddsoddi ar ran y Cyngor Cadarnhaodd y byddai ceisiadau yn cael eu cyfyngu i ymgeiswyr sy'n breswyl yn y Sir, ac y byddai Panel Grantiau yn cynnwys pobl leol yn asesu'r holl geisiadau a gwneud argymhellion ariannu. Byddai'r asedau'n cael eu defnyddio'n fras yn unol â'r amcanion a'r meysydd elwa gwreiddiol a byddai hyn yn amod 'caniatâd absoliwt' gan Gomisiwn Elusennau Cymru a Lloegr. Hysbyswyd yr Aelodau y byddai'r Panel Grantiau yn cynnwys nifer o bobl ac y gallai'r Cyngor benodi cynrychiolwyr ar y Grŵp a sicrhau cyfranogiad Aelodau wrth ddosbarthu'r cronfeydd.

Esboniwyd gan y Cynghorydd D.I. Smith bod y Pwyllgor Craffu Cymunedau wedi derbyn cyflwyniad ar y mater hwn ac wedi cymeradwyo'r broses yn llawn.

Mewn ymateb i gwestiynau gan y Cynghorwyr G.M. Kensler ac S. Thomas, cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol: Dysgu a Chymunedau y gellid trafod mater ymgynghori â Chynghorau Cymuned gyda'r Rheolwr Cysylltu â'r Gymuned. Hefyd, rhoddodd fanylion y broses o gymryd penderfyniad a rôl y Panel Grantiau wrth gynnal yr agwedd leol ac amcanion gwreiddiol yr asedau.

Ymatebodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol: Dysgu a Chymuned i gwestiwn gan y Cynghorydd G.C. Evans a chadarnhau y byddai'r Sefydliad Cymunedol ar gyfer Cymru yn cymryd cyfrifoldeb am ddosbarthu'r £20k a neilltuwyd o Gronfa Waddol Gymunedol Sir Ddinbych

***PENDERFYNWYD –*** *bod y Cabinet:-*

*(a) Yn cydnabod yr wybodaeth am y 55 ymddiriedolaeth farw ac aneffeithiol a'u hasedau cysylltiedig a ddelid gan y Cyngor a 'Chronfa Gymunedol Sir Ddinbych' arfaethedig (Atodiad 1).*
*(b) Yn cytuno, yn amodol ar gefnogaeth lawn y Comisiwn Elusennau, bod y 55 o ymddiriedolaethau marw ac aneffeithiol a'u hasedau cysylltiedig yn cael eu trosglwyddo i 'Gronfa Waddol Gymunedol Sir Ddinbych' arfaethedig i'w rheoli a dod yn gyfrifoldeb cyfreithiol y Sefydliad.*
*(c) Yn awdurdodi cymryd y camau cyfreithiol angenrheidiol i ddod i'r cytundeb gofynnol gyda'r Sefydliad Cymunedol yng Nghymru, ac*
*(d) Yn cytuno y bydd amcanion gwreiddiol yr asedau'n cael eu parchu cyn belled ag y bo modd ac y bydd cynrychiolwyr y Cyngor a chynrychiolwyr lleol ar y Panel Grantiau.*

## 7 ADRODDIAD TERFYNU BWRDD POBL A LLEOEDD

Cyflwynodd y Cynghorydd P.A. Dobb yr adroddiad a oedd yn manylu llwyddiannau a'r hyn a ddysgwyd gan y Bwrdd Pobl a Lleoedd ac yn gofyn am gytundeb i weithredu argymhellion allweddol o'r Adroddiad Terfynu.

Sefydlwyd y Bwrdd Rhaglen Pobl a Lleoedd gyda'r pwrpas o roddi arweiniad ac i gydgysylltu gweithgareddau. Roedd manylion y ffrydiau gwaith eang a gytunwyd a'r ffrwd waith ddilynol, wedi eu cynnwys yn yr adroddiad. Rhoddwyd amlinelliad o'r

llwyddiannau a'r hyn a ddysgwyd o'r Bwrdd Pobl a Lleoedd, a gynhaliodd ei gyfarfod olaf ym mis Mawrth 2012, gan y Cynghorydd Dobb.

Dosbarthwyd copi o Adroddiad Terfynu Rhaglen Bwrdd Pobl a Lleoedd gyda'r adroddiad ar gyfer y cyfarfod. Roedd adran Adolygu'r Prosiect a thasgau ar ôl y Rhaglen yn yr Adroddiad Terfynu yn nodi'r llwyddiannau a sut byddai prosiectau allweddol nad oeddynt wedi eu cwblhau yn cael eu trin yn y dyfodol. Roedd trefniadau manwl yn cael eu gwneud i sicrhau bod prosiectau'n cael eu cwblhau a'u prif-ffrydio. Roedd y Bwrdd Pobl a Lleoedd wedi adolygu'r Gwersi a Ddysgwyd trwy weithredu'r Bwrdd ac roedd pwyntiau gwerthuso allweddol wedi eu nodi yn yr Adroddiad Terfynu.

Nodwyd nifer o broblemau a gafwyd gan y Bwrdd gan y Cynghorydd Dobb a oedd yn cynnwys:-

- Baich gwaith trwm mewn cyfarfodydd
- Diffyg cyfranogiad Cynghorwyr gyda chynrychiolaeth wael gan Aelodau Grwpiau. Mynegodd y Cynghorydd Dobb y farn y dylai Arweinwyr Grwpiau a Grwpiau Aelodau Ardal fod yn ymwybodol o bwysigrwydd presenoldeb Aelodau a'u cyfranogiad mewn cyfarfodydd, a theimlai y dylid annog Arweinwyr Grwpiau i gymryd mwy o gyfrifoldeb am bresenoldeb Aelodau mewn cyfarfodydd. Esboniodd y byddai dod yn agosach at y gymuned yn gofyn am fuddsoddiad amser gan y Cynghorwyr perthnasol.
- Adnoddau gweithredu prin mewn perthynas â'r Bwrdd.

Cefnogodd yr Aelodau farn y Cynghorydd Dobb mewn perthynas â'r angen am ymrwymiad Aelodau a'i bwysigrwydd, mewn perthynas â mynychu cyfarfodydd mewnol ac allanol.

Mynegodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol: Demograffeg a Lles a Chynllunio gefnogaeth i gynhyrchu adroddiadau terfynu. Esboniodd bod yr adroddiad wedi rhoi trosolwg o'r llwyddiannau a'r meysydd lle gellid gwella.

Amlygodd y Cynghorydd M.Ll. Davies yr angen i sicrhau bod darpar Gynghorwyr yn cael eu hysbysu o'r ymrwymiad sydd ei angen wrth ymgymryd â dyletswyddau Aelod Etholedig, yn enwedig mynychu cyfarfodydd allanol a mewnol. Mewn ateb i gwestiwn gan y Cynghorydd C. Hughes, cytunodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol: Demograffeg a Lles a Chynllunio gyflwyno gwybodaeth bellach ar yr adolygiad o gludiant hen bobl a chydgysylltu prosiectau bychain.

Esboniodd y Prif Weithredwr ei fod yn falch o weld cyflwyno'r adroddiad terfynu, a theimlai y gellid ei ystyried fel model ar gyfer symud ymlaen gyda Byrddau eraill. Cydnabu'r gwaith a wnaed gan y Bwrdd wrth gyflawni canlyniadau pwysig mewn perthynas â Blaenoriaethau Corfforaethol y Cyngor a mynegodd ei gefnogaeth i adolygiad o strwythurau rheoli byrddau/rhaglenni corfforaethol bob blwyddyn.

Cydnabu bryderon ynglŷn â phresenoldeb Aelodau mewn cyfarfodydd a chadarnhaodd bod presenoldeb Aelodau mewn cyfarfodydd cyhoeddus wedi ei chyhoeddi. Fodd bynnag, nid oedd hyn wedi ei wneud ar gyfer cyfarfodydd mewnol. Esboniwyd bod sefydlogrwydd presenoldeb Aelodau yn bwysig o ran sicrhau

llwyddiant y Byrddau, ac y byddai pwysigrwydd rôl Aelodau etholedig yn cael ei ymgorffori yn y Rhaglen Sefydlu. Awgrymodd y Prif Weithredwr, gan fod hwn yn gyfrifoldeb gwleidyddol yn y bon, bod Arweinwydd Grwpiau yn dod yn gyfrifol am fonitro presenoldeb a sicrhau sefydlogrwydd mewn cyfarfodydd mewnol.

Mewn ymateb i gwestiwn gan y Cynghorydd D.A.J. Thomas, cadarnhawyd bod adolygiad o Gyrff Allanol yn mynd rhagddo ar hyn o bryd ac y cawsai ei gyhoeddi pan fyddai wedi ei gwblhau, ynghyd â ffigurau presenoldeb Aelodau.

Ar ôl trafodaeth bellach, fe

***BENDERFYNWYD –*** *bod y Cabinet yn cytuno:-*

*(a) Adolygiad o strwythurau rheoli byrddau/rhaglenni corfforaethol bob blwyddyn i sicrhau eu bod yn dal yn addas i'w pwrpas.*
*(b) Sicrhau bod gan raglenni corfforaethol yn y dyfodol ganlyniadau, amcanion, dangosyddion a mesurau y gellir eu cyflawni o fewn tymor etholiadol.*
*(c) Cytuno safonau mynychu cyfarfodydd mewnol gydag Arweinwyr Grwpiau ac argymell bod Arweinwyr Grwpiau yn monitro presenoldeb eu Haelodau, a*
*(d) Chefnogi datblygu strwythur i gefnogi'r Hyrwyddwr Pobl Hyn er mwyn sicrhau cyflawniad parhaus prosiectau "Cymunedau a Lles".*

## 8 RHAGLEN WAITH Y CABINET I'R DYFODOL

Cyflwynodd y Cynghorydd H H Evans Raglen Waith y Cabinet i'r dyfodol.

***PENDERFYNWYD –*** *bod y Cabinet yn derbyn y Rhaglen Waith i'r Dyfodol.*

## RHAN II

## GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD

***PENDERFYNWYD*** *dan Adran 100A(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972 y dylid gwahardd y Wasg a'r Cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer yr eitemau busnes canlynol oherwydd eu bod yn golygu datgeliad tebygol gwybodaeth eithriedig fel y diffinnir ym mharagraffau 13 a 14 Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972.*

## 9 PRYNU 25/26 RHODFA'R GORLLEWIN, Y RHYL TRWY ORCHYMYN PRYNIANT GORFODOL

Cyflwynodd y Cynghorydd P.J. Marfleet yr adroddiad i'r Cabinet ar ddefnyddio trefniadau Pryniant Gorfodol i brynu'r eiddo adfeiliedig a elwir 25/26 Rhodfa'r Gorllewin, i ddibenion ailddatblygu ynghyd ag eiddo cyffiniol ym meddiant y Cyngor.

Penderfynodd y Cabinet ar 24ain Tachwedd 2011 fawysiadu cynllun darparu Y Rhyl yn Symud Ymlaen fel strategaeth adfywio a'r gyfer y Rhyl. Roedd yr Honey Club a

25/26 Rhodfa'r Gorllewin yn Ardal Ymyrraeth B fel y nodwyd yn Atodiad 2 i'r adroddiad.

Oaklion Properties Limited oedd perchnogion rhyddfraint cofrestredig 25/26 Rhodfa'r Gorllewin. Darparwyd manylion Cod Iawndal Statudol, fel sylfaen ar yr hwn yr oedd y Cyngor yn ceisio prynu'r eiddo, gan Brisiwr y Sir, ac ar 5ed Hydref 2011 gwnaed cynnig yn cyfateb i brisiad y Prisiwr Dosbarth ar yr eiddo.

Roedd Oaklion Properties Limited wedi amlinellu anawsterau o ran cael grant i ailddatblygu'r eiddo ganol y 1990au gan ddweud bod angen i'r Cyngor ddatrys y mater hwn er mwyn prynu'r eiddo. Roedd Prisiwr y Cyngor wedi esbonio nad oedd hyn yn bosibl ac wedi gofyn i Oaklion ddyfynnu termau ar gyfer gwerthu'r eiddo i'r Cyngor. Roedd datblygiadau wedi hynny yn awgrymu y byddai'n annhebygol y gallai'r Cyngor brynu'r eiddo trwy gytundeb.

Roedd y Cyngor wedi hysbysebu argaeledd safle'r Honey Club ar gyfer ailddatblygu ac roedd datblygwyr gyda diddordeb mewn ailddatblygu'r safle cyfan, gan gynnwys 25/26 Rhodfa'r Gorllewin, wedi eu cyfweld gan y Cyngor ar 17eg Ebrill 2012. Roedd angen prynu 25/26 Rhodfa'r Gorllewin er mwyn dymchwel y strwythur adfeiliedig presennol i gwblhau cyfosod y safle.

Byddai'r cais am Ganiatâd Cynllunio i ailddatblygu yn cael ei wneud gan y datblygwr. Nid oedd y Cyngor wedi pennu natur y datblygiad arfaethedig newydd, ond roedd y datblygwyr a oedd wedi mynegi diddordeb yn y safle a oedd yn destun Gorchymyn Pryniant Gorfodol a'r Honey Club gyda'i gilydd wedi awgrymu datblygiad gwesty, ac roedd datblygiad o'r fath yn cael ei gefnogi gan yr Arweiniad Cynllunio Atodol a grybwyllwyd yng nghynllun darparu y Rhyl yn Symud Ymlaen.

Esboniodd y Cynghorydd J. Thompson-Hill bod hwn yn safle allweddol er mwyn adfywio'r ardal. Tanlinellodd yr angen i symud ymlaen ar y mater a mynegodd ei gefnogaeth i'r argymhelliad yn yr adroddiad.

***PENDERFYNWYD** – bod y Cabinet yn cymeradwyo defnyddio trefniadau Pryniant Gorfodol i brynu 25/26 Rhodfa'r Gorllewin, y Rhyl (Atodiad 1) i bwrpas ailddatblygu.*

## 10 MATERION BRYSD

Ailddatblygu 21-26 Rhodfa'r Gorllewin, y Rhyl
Caniatâd i ddymchwel 21-24 Rhodfa'r Gorllewin, y Rhyl

## 11 AILDDATBLYGU 21-26 RHODFA'R GORLLEWIN, Y RHYL

Cyflwynodd y Cynghorydd P J Marfleet yr adroddiad i'r Cabinet ar benodi 'Partner a Ffefrir' i weithio gyda'r Awdurdod i ddatblygu'r eiddo 21-24 Rhodfa'r Gorllewin, a elwir yn ffurfiol yr Honey Club, y Rhyl, a'r eiddo ychwanegol yn cynnwys y modurdy y tu ôl i 27-28 Rhodfa'r Gorllewin, yn meddiant Sir Ddinbych, a 25-26 Rhodfa'r Gorllewin, y Rhyl (yn amodol ar ei gaffael).

Ystyriwyd y "mynegiannau o ddiddordeb" ar gyfer y cynllun gan Banel o swyddogion a'r Aelodau Arweiniol ar gyfer Moderneiddio'r Cyngor ac Adfywio, ac roedd rhestr fer o ddatblygwyr a ffefrir wedi ei chymeradwo gan y Cabinet ar 20fed Mawrth 2012. Roedd manylion y broses a fabwysiadwyd i ystyried y rhestr fer a'r meini prawf cyflwyno, gan gynnwys cwestiynau penodol a matrics sgorio, wedi eu cynnwys yn Atodiad A.

Ar ôl trafodaeth, cytunodd y Grŵp argymell penodi Chesham Estates fel y Partner Datblygu a ffefrir. Penodwyd tîm o swyddogion i weithio gyda'r Partner Datblygu a ffefrir i ddatblygu'r cynigion yn gynllun ymarferol ar gyfer y safle. Byddai hyn yn cynnwys paratoi cytundebau, dilysu cynigion a gweinyddu'r bartneriaeth a byddai'r holl gynigion yn cael eu cyflwyno i'r Cabinet i'w cymeradwyo'n derfynol.

Er mwyn gwella hyfywedd cyffredinol y cynigion, a chynorthwyo ymhellach gydag adfywiad cyffredinol Rhodfa'r Gorllewin, byddai'r safle datblygu hefyd yn cynnwys y modurdy y tu ôl i 27-28 Rhodfa'r Gorllewin a 25-26 Rhodfa'r Gorllewin, y Rhyl (yn amodol ar gaffaeliad). Cynhwyswyd Cynllun Darparu / Rhaglen Ddangosol yn yr adroddiad.

Mewn ymateb i gwestiynau gan y Cynghorydd P.A. Dobb ar ariannu'r prosiect, a'r goblygiadau ariannol i Sir Ddinbych, cyfeiriodd y Pennaeth Cyllid ac Asedau at benderfyniad a gymerwyd eisoes i ddarparu cyllid ar gyfer y prosiect o arian cronfa flaenoriaeth. Esboniodd y byddai union fanylion y goblygiadau ariannol yn cael eu datblygu wrth i'r prosiect symud ymlaen a chadarnhaodd bod y Dabtlygwr wedi cynnig i'r Cyngor gyfandal rhagarweiniol a rhannu elw'r datblygiad yn y dyfodol. Gwahoddodd y Cynghorydd J. Thompson-Hill yr Aelodau i nodi'r Diweddariad ar Brosiectau Cyfalaf Mawrion, Caffael Eiddo a Dymchwel, y Rhyl yn Symud Ymlaen, a oedd yn manylu cyllid mewn perthynas â'r prosiect dan sylw.

Ar ôl trafodaeth bellach, cefnogodd yr Aelodau yr argymhellion yn yr adroddiad ac fe:-

***BENDERFYNWYD*** *– bod y Cabinet yn cymeradwyo penodi Chesham Estates ar ffurf Chesham Estates (Rhyl) Limited fel Partner Datblygu'r Awdurdod ar gyfer ailddatblygu 21-24 Rhodfa'r Gorllewin (a elwid gynt yr Honey Club), y modurdy y tu ôl i 27-28 Rhodfa'r Gorllewin a 25-26 Rhodfa'r Gorllewin, y Rhyl (yn amodol ar gaffaeliad).*

**12 CANIATÂD I DDYMCHWEL 21-24 RHODFA'R GORLLEWIN, Y RHYL**

Cyflwynodd y Cynghorydd P.J. Marfleet yr adroddiad i'r Cabinet ar ddirywiad parhaus 21-24 Rhodfa'r Gorllewin, a elwid gynt yr Honey Club, y Rhyl a'r angen i wneud cais am ganiatâd i'w ddymchwel.

Hysbyswyd yr aelodau bod cyflwr yr adeilad wedi dirywio'n esbonyddol a bod perygl difrifol darnau'n syrthio a chwympo direol, ac o ganlyniad roedd Water Street, y Rhyl wedi ei chau i gerbydau.

Roedd y Tîm Gweithredol Corfforaethol wedi penderfynu y dylid symud ymlaen gyda'r broses o wneud cais i ddymchwel yr adeilad cyfan. Fodd bynnag, oherwydd cyflwr presennol yr adeilad, roedd cymeradwyaeth yn cael ei cheisio nawr am ganiatâd i ddymchwel heb gael cynnig cynllun cyfan yn ei le, a chyn unrhyw ailddatblygu safle.

Roedd manylion y cyngor diweddaraf a gafwyd gan beirianwyr strwythurol ymgynghorol ar gyfanrwydd strwythurol yr adeilad wedi eu cynnwys yn yr adroddiad. Roedd Llywodraeth Cymru, CADW, Arolygwyr Iechyd a Diogelwch ac Ymgynghorwyr Cadwraeth Annibynnol wedi eu hysbysu o'r sefyllfa ac roedd partneriaid dabtlygu wedi eu ceisio i lunio cynigion priodol ar gyfer y safle.

Roedd gohebiaeth wedi cychwyn gyda Swyddfa Gynllunio Llywodraeth Cymru i geisio cael ateb amgen er mwyn galluogi dymchwel mewn ardal gadwraeth heb fodloni'r meini prawf llawn a gofynion caniatâd Ardal Gadwraeth. Roedd gohebiaeth gyda Llywodraeth Cymru wedi ei chynnwys fel Atodiad A ac roedd ymateb Llywodraeth Cymru wedi ei gynnwys yn Atodiad B. Esboniwyd nad oedd dull arall o gael caniatâd i ddymchwel mewn Ardal Gadwraeth heb ddilyn y broses gynllunio lawn.

Oherwydd y peryglon a nodwyd ac a fanylwyd yn yr adroddiad, cynigiwyd gwneud cais am ganiatâd i ddymchwel yr adeilad ar ei ben ei hun. Cynigiwyd bod yr wybodaeth atebol ar gyfer cais y cynllun cyfan yn parhau i gael ei chasglu ar yr un pryd â'r cais am ganiatâd i ddymchwel, yn dibynnu ar benodi'r Partner Datblygu a ffefrir. Byddai'r manylion a'r wybodaeth yna'n cael eu cyflwyno i Swyddfa Gynllunio Llywodraeth Cymru i'w hystyried fel gwybodaeth ategol.

Amlinellwyd manylion amserlen debygol y gwaith yn yr adroddiad a chadarnhawyd y byddai cyflwr yr adeilad yn cael ei fonitro'n ofalus.

***PENDERFYNWYD** – bod y Cabinet yn cymeradwyo'r cynnig i wneud cais i Lywodraeth Cymru am ganiatâd i ddymchwel mewn ardal gadwraeth heb fod â chynnig cynllun llawn, am resymau Iechyd a Diogelwch a pherygl ar ddigwydd, fel y manylwyd yn yr adroddiad hwn. Y safle i'w ddymchwel oedd 21-24 Rhodfa'r Gorllewin, y Rhyl.*

**Daeth y cyfarfod i ben am 11.45 a.m.**

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

**Adroddiad i'r:** **Cabinet**

**Dyddiad y Cyfarfod:** **19 Mehefin 2012**

**Swyddog / Aelod Arwain:** **y Cyng. Barbara Smith / Alan Smith**

**Awdur yr Adroddiad:** **Tony Ward**

**Teitl:** **Adroddiad Perfformiad Corfforaethol: Chwarter 4 2011/12**

---

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

1.1. Mae'r adroddiad hwn yn galluogi'r cyngor i werthuso'r cynnydd ar draws meysydd perfformiad allweddol. Mae'r prif adroddiad yn cyflwyno crynodeb o eithriadau am bob maes perfformiad. Cefnogir yr Adroddiad Eithriadau Cryno hwn gan benodau unigol sy'n crynhoi'n fanylach y perfformiad ym mhob maes arbennig. Y gwahanol benodau yw:

- Pennod 1 – Dangosyddion 2012
- Pennod 2 – Blaenoriaeth Gorfforaethol: Newid Demograffig
- Pennod 3 – Blaenoriaeth Gorfforaethol: Adfywio
- Pennod 4 – Blaenoriaeth Gorfforaethol: Moderneiddio Addysg
- Pennod 5 – Blaenoriaeth Gorfforaethol: Ffyrdd ac Amddiffynfeydd rhag Llifogydd
- Pennod 6 – Cofrestr Prosiectau Corfforaethol
- Pennod 7 - Cytundebau Canlyniad â Llywodraeth Cymru
- Pennod 8 - Diogelu

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

2.1. Rhoi gwybod am y meysydd perfformiad allweddol ar gyfer y cyngor, a galluogi'r Cabinet i gyflawni ei swyddogaeth rheoli perfformiad.

2.2. Yn yr adroddiad cyflwynir y sefyllfa ar ddiwedd 4ydd Chwarter 2011-12, sef diwedd cyfnod Cynllun Corfforaethol 2009-12. Bydd adroddiad mwy cynhwysfawr i werthuso perfformiad y cyngor yn 2011-12 yn cael ei gyhoeddi ym mis Hydref 2012. Bydd yr adroddiad hwn hefyd yn gosod ein perfformiad yng nghyd-destun perfformiad cenedlaethol os oes modd.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

3.1. Bod y Cabinet yn ystyried yr eithriadau sy'n gysylltiedig â chyflawni'r canlyniadau yn yr adroddiad, ac yn mynd ar drywydd unrhyw faterion cysylltiedig â pherfformiad gyda'r Pennaeth Gwasanaeth a'r Aelod Arwain priodol.

## 4. Manylion yr Adroddiad

4.1. Mae'n bwysig cydnabod bod perfformiad cyffredinol y cyngor ar draws y meysydd allweddol sy'n cael sylw yn yr adroddiad hwn yn dda iawn. Gwnaethpwyd cynnydd sylweddol yn ystod cyfnod Cynllun Corfforaethol 2009-12, ac ystyrir bellach mai Cyngor Sir Ddinbych yw un o'r cynghorau uchaf ei berfformiad, os nad yr uchaf, yng Nghymru. Cefnogir y farn hon gan fwyafrif yr wybodaeth a gyflwynir ym mhenodau manwl yr adroddiad hwn. Fodd bynnag, mewn rhai meysydd byddem yn disgwyl i'n perfformiad fod yn well, ac mae'r adroddiad cryno'n canolbwyntio ar yr eithriadau hyn. Yr eithriadau hyn y mae gofyn eu trafod i sicrhau y gwnawn bopeth posibl i fynd i'r afael â materion perfformiad.

4.2. Un o ystyriaethau allweddol yr adroddiad hwn yw'r ffordd y cyflwynwn berfformiad. Yn ddiweddar, aeth y cyngor ati i gysoni adroddiadau perfformiad am "ddangosyddion" a "mesurau perfformiad" â'r system pedair CAG (Coch, Oren, Melyn, Gwyrdd) a ddefnyddir gan y Gwasanaethau Archwilio Mewnol ac i Reoli Risg. Cymhwyswyd y dull hwn yn ôl-weithredol i'r dangosyddion a'r mesurau perfformiad yn ein Cynllun Corfforaethol 2009-12.

4.3. Ar hyn o bryd, mae'r broses o roi gwybod am weithgarwch gwella (prosiectau a chamau) yn dal gyda'r system pum CAG a ddefnyddir gan y Fethodoleg Rheoli Prosiectau Corfforaethol. Ar hyn o bryd, mae'r fethodoleg hon yn destun adolygiad ac, ar ôl cwblhau hwnnw, bydd yn cael ei chysoni â system pedair CAG. Tan hynny, bydd y dull rheoli prosiectau cyfredol yn dal yn cael ei ddefnyddio i roi gwybod am weithgarwch gwella.

## 5. Cyfraniad y penderfyniad at y Blaenoriaethau Corfforaethol

5.1. Mae'r prif adroddiad yn rhoi gwybodaeth am eithriadau ym mhob maes perfformiad allweddol, gan alluogi Aelodau a swyddogion i ganolbwyntio ar feysydd gwan.

5.2. Mae'r penodau sy'n cefnogi'r prif adroddiad yn rhoi gwybod rhagor am berfformiad ym mhob maes, ac maent yn cynnwys hunanarfarniad byr yn seiliedig ar y meini prawf a ddefnyddir i bennu llwyddiant.

## 6. Y gost a'i heffaith ar wasanaethau eraill y cyngor

6.1. Bydd y gwasanaeth sy'n gyfrifol am wella perfformiad neu weithgarwch yn pennu ac yn ateb unrhyw ofynion adnoddau ychwanegol (staff neu ariannol) o gyllideb y gwasanaeth.

6.2. Bu Cynllun Corfforaethol 2011-12 yn destun asesiad o effaith ar gydraddoldeb, a oedd yn amlygu bod angen gwneud asesiadau ychwanegol o effaith prosiectau a chamau penodol ar gydraddoldeb. Bydd perchennog y prosiect neu'r cam y mae angen craffu arno ymhellach o ran cydraddoldeb yn gyfrifol am wneud asesiadau o effaith ar gydraddoldeb, ond bydd hefyd yn gosod galw am gymorth ar y Gwasanaeth Perfformiad a Chynllunio Busnes.

**7. Ymgynghoriadau a gynhaliwyd**

7.1. Bu'r Tîm Gweithredol Corfforaethol yn ystyried yr adroddiad drafft ar 28 Mai 2012, a gwnaethpwyd diwygiadau cyn ei gyflwyno i'r Uwch Dîm Arwain ar 07 Mehefin 2012. Cafodd yr adroddiad terfynol, fel y cytunwyd arno gan yr Aelod Arwain a'r Pennaeth Perfformiad a Chynllunio Busnes, ei gyflwyno wedyn i'r Pwyllgor Craffu Perfformiad a'r Cabinet.

**8. Datganiad y Prif Swyddog Ariannol**

8.1. Nid oes unrhyw gostau uniongyrchol yn deillio o'r adroddiad hwn. Mae'n bosibl y bydd grant yn cael ei golli os na fydd y cytundebau canlyniad yn cael eu cyflawni.

**9. Y risgiau a'r ffordd y gellir eu lleihau**

9.1. Mae risg y bydd y cyngor yn cymharu'n anffafriol ag awdurdodau lleol eraill mewn adroddiadau rheoleiddio a pherfformiad. Dylai fframwaith rheoli perfformiad y cyngor a'i ymgais i wella'n barhaus helpu i liniaru'r risg hwn.

9.2. Nid oes unrhyw risgiau wedi'u nodi sy'n gysylltiedig â chytuno i'r argymhellion yn y prif adroddiad.

**10. Y pŵer i wneud y Penderfyniad**

10.1. Yn seiliedig ar ofynion statudol Deddf Llywodraeth Leol 1999 a Mesur Llywodraeth Leol "Cymru" 2009, mae monitro a rheoli perfformiad yn un o elfennau allweddol Rhaglen Cymru ar gyfer Gwella 2010.

**11. Cynllun Gweithredu**

11.1. Hwn yw'r adroddiad perfformiad chwarterol olaf ar gyfer cyfnod Cynllun Corfforaethol 2009-12. Fodd bynnag, bydd canlyniadau allweddol o'r Cynllun Corfforaethol yn dal yn cael eu cyflawni drwy ein Cynlluniau Gwasanaeth yn 2012-13. Bydd y monitro felly'n parhau drwy'r Pwyllgor Craffu Perfformiad, lle bydd perfformiad Cynlluniau Gwasanaeth yn cael ei fonitro.

## Adroddiad Eithriadau Cryno

1. Yn yr adroddiad hwn, cyflwynir crynodeb o'r eithriadau sy'n berthnasol i bob un o feysydd allweddol perfformiad y cyngor. Cefnogir yr adroddiad gan benodau unigol sy'n rhoi gwybod rhagor am berfformiad ym mhob maes. Y gwahanol benodau yw:


- Pennod 1 – Dangosyddion 2012
- Pennod 2 – Blaenoriaeth Gorfforaethol: Newid Demograffig
- Pennod 3 – Blaenoriaeth Gorfforaethol: Adfywio
- Pennod 4 – Blaenoriaeth Gorfforaethol: Moderneiddio Addysg
- Pennod 5 – Blaenoriaeth Gorfforaethol: Ffyrdd ac Amddiffynfeydd rhag Llifogydd
- Pennod 6 - Cofrestr Prosiectau Corfforaethol
- Pennod 7 – Cytundebau Canlyniad â Llywodraeth Cymru
- Pennod 8 - Diogelu


**Dangosyddion 2012**

2. Ar y cyfan, mae ein perfformiad mewn perthynas â dangosyddion 2012 wedi gwella'n sylweddol o'r sefyllfa wreiddiol yn 2008-09. Mae'r perfformiad gwirioneddol wedi gwella mewn 12 o'r 19 dangosydd, ac mae perfformiad perffaith (h.y. 100% neu 0% o berfformiad) wedi'i gynnal ar gyfer 4 dangosydd pellach. Mae ein perfformiad cymharol wedi gwella'n sylweddol hefyd o'r sefyllfa yn 2008-09 pan oedd ein perfformiad yn hanner gwaelod yr awdurdodau yng Nghymru ar gyfer 9 o'r 19 dangosydd. Er nad oes gennym ddata perfformiad Cymru gyfan eto ar gyfer 2011-12, ar hyn o bryd disgwyliwn i'n perfformiad yn 2011-12 ein gosod yn hanner gwaelod yr awdurdodau yng Nghymru ar gyfer 3 o'r 19 dangosydd (i'w gadarnhau pan gyhoeddir y data Cymru gyfan ym mis Awst 2012):

   2.1. **Y ganran o'r holl ddisgyblion sy'n gadael addysg orfodol, hyfforddiant, neu ddysgu seiliedig ar waith heb gymhwyster allanol cymeradwy.** Mae'r sefyllfa wedi gwella o 1.8% yn 2008-09 i 0.82% yn 2011-12. Fodd bynnag, mae hyn yn dal yn gymharol uchel mewn termau canran, ac mae'n gosod y cyngor islaw canolrif Cymru. Yn Sir Ddinbych, gadawodd un ar ddeg o ddisgyblion addysg orfodol, hyfforddiant, neu ddysgu seiliedig ar waith heb gymhwyster allanol cymeradwy yn 2011-12. Daw'r gyfran fwyaf o ddisgyblion sy'n gadael heb gymhwyster o ardal y Rhyl. Mae hyn yn dal yn flaenoriaeth i'r Pennaeth Addysg, a bydd yn cael ei fonitro yn y dyfodol drwy'r Cynllun Gwasanaeth Addysg.

   2.2. **Y ganran o atgyfeiriadau amddiffyn oedolion a gwblhawyd lle mae'r risg wedi'i reoli.** Er bod ein perfformiad ar gyfer rheoli risg atgyfeiriadau amddiffyn oedolion yn ystod 2011-12 wedi gwella o'i gymharu â'r man cychwyn yn 2008-09 (87.4% o'i gymharu ag 81.9%), mae'n bosibl y byddwn islaw Canolrif Cymru 2011/12 ar ôl gwaethygu ers perfformiad 2010/11. Mae'r dangosydd hwn yn bwysig oherwydd caiff ei amlygu fel yr unig ddangosydd ar gyfer amddiffyn oedolion agored i niwed, ac mae'n dal yn y Cynllun Gwasanaethau Busnes ac Oedolion i'w fonitro yn y dyfodol.

2.3. **Y ganran o Blant a oedd yn arfer Derbyn Gofal sydd mewn llety addas.** Rhagwelwn y bydd y ganran o blant a oedd yn arfer derbyn gofal sydd mewn llety addas islaw Canolrif Cymru yn 2011/12. Y rheswm (fel ydoedd yn 2010-11) yw nifer bach o bobl â dedfrydau o garchar. Ar wahân i'r ddau yn y ddalfa, roedd y 12 arall mewn llety addas.

**Blaenoriaeth Gorfforaethol: Newid Demograffig**

3. Mae'r ganran o ofalwyr defnyddwyr gwasanaethau oedolion y cynigiwyd asesiad iddynt wedi cynyddu o fan cychwyn o 70.5% yn 2008/09 i 75.6% yn 2011/12. Mae hwn yn dal yn faes i'w wella, ac mae'r gwasanaeth yn bwriadu ei unioni drwy archwilio prosesau a gweithdrefnau yn 2012/13. Fodd bynnag, mae'r ganran o ofalwyr sy'n cael cymorth ar ôl asesiad yn parhau i gynyddu, gyda 97.5% o'r rheini a aseswyd yn 2011/12 yn cael cymorth priodol.

4. Mae'r broses o adolygu Cynlluniau Gofal wedi gwella o berfformiad gwreiddiol o 70.5% yn 2008-09 i 80.5% yn 2011-12, er ei fod wedi gwaethygu o sefyllfa 2010/11 a'i fod yn dal islaw ein targed o 85%.

5. Mae trafodaethau wedi dechrau â Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru (WEFO) i ail-broffilio targedau'r Prosiect Cysylltiadau Gwaith Newydd (NWC). O ganlyniad i'r ail-broffilio, bydd llai o ddisgwyliadau oddi wrth y prosiect. Mae'r prosiect hwn yn atebol i WEFO, sy'n gyfrifol am gronfa'r grant a pherfformiad y prosiect.

**Blaenoriaeth Gorfforaethol: Adfywio**

6. Dengys Arolwg y Preswylydd ganfyddiad negyddol cyffredinol gan breswylwyr y Rhyl am yr ardal lle maent yn byw. Mae gan ardal y Rhyl hefyd gyfran sylweddol uwch o'r boblogaeth yn hawlio lwfans ceisio gwaith (JSA). Mae niferoedd gwirioneddol y rhai sy'n hawlio'r lwfans hwn wedi codi a gostwng ond ni fu iddynt byth gyrraedd y targed gostwng cymharol yn ystod 2011/12. Hefyd, mae cyrhaeddiad yn yr ysgolion yn y Rhyl yn dal ymhell islaw canolrif Cymru a'n targed.

**Blaenoriaeth Gorfforaethol: Moderneiddio Addysg**

7. Mae cyfnod allweddol un a thri yn dal yn peri gofid, oherwydd ni wnaeth eu perfformiad yn 2011-12 fodloni ein huchelgais i fod ymhlith y deg cyngor gorau yng Nghymru ar gyfer cyrhaeddiad. Y rheswm am y perfformiad gwael yng nghyfnod allweddol un yw hepgor dwy ysgol uchel eu perfformiad o'r canlyniadau canran cyffredinol am eu bod yn ysgolion yng nghynllun peilot y cyfnod sylfaen. Mae perfformiad yng nghyfnod allweddol tri wedi gwella ers y man cychwyn yn 2008-09, ond roedd gwelliannau sylweddol ledled Cymru'n golygu nad oeddem yn gallu gwella ein safle cymharol i fod ymhlith y deg cyngor brig. Dylid nodi bod Sir Ddinbych wedi canolbwyntio'n sylweddol ar wneud gwelliannau yng nghyfnodau dau a phedwar yn ystod 2011-12, ac y bydd hyn wedi cyfrannu at y gwelliant cymharol mwy yn y cyfnodau allweddol hyn.

**Blaenoriaeth Gorfforaethol: Ffyrdd ac Amddiffynfeydd rhag Llifogydd**

8. Dengys Arolwg y Preswylydd ganfyddiad negyddol cyffredinol ymhlith preswylwyr am ansawdd rhwydwaith ffyrdd Sir Ddinbych. Un eglurhad posibl yw bod yr arolwg wedi'i gynnal cyn y byddai effeithiau go iawn ein buddsoddiad ychwanegol diweddar mewn gwelliannau ffyrdd yn amlwg. Mae ein gwelliant yn y dangosyddion cyflwr ffyrdd cenedlaethol rhwng 2010-11 a 2011-12 yn cynyddu'r ffydd bod ein buddsoddiad ychwanegol yn y rhwydwaith ffyrdd yn dechrau cael effaith. Rydym hefyd yn ddiweddar wedi datblygu'r Mynegai Cyflwr Ffyrdd yn ddull arall o fesur gwelliant yn ansawdd ein rhwydwaith ffyrdd, ond roedd 2011-12 ynglŷn â chreu man cychwyn, felly dim ond yn y Mynegai Cyflwr Ffordd y byddwn yn gallu olrhain o 2012-13 ymlaen. Gallai perfformiad gwael mewn perthynas â'r mesur SCRIM o atal sgidio fod yn risg i elfennau diogelwch y canlyniad.

<u>**Cofrestr Prosiectau Corfforaethol**</u>

9. **Prosiect AD Trent:** Mae'n debyg bod problem gyda'r e-byst llif gwaith a gynhyrchir gan iTrent (gan arwain at benderfyniad i ddiffodd e-byst awtomatig i staff a rheolwyr) wedi'i datrys erbyn hyn ar ôl mis o brofion rhwng yr adrannau AD a Chyflogres. Fodd bynnag, ni fydd y llifoedd gwaith yn cael eu rhoi ymlaen eto nes ein bod yn gwbl sicr na fydd y system yn ailadrodd y broblem. Mae'r ffydd cyflenwi **Coch/Ambr** yn adlewyrchu'r pryderon a achoswyd gan y mater hwn. Yn fwy cadarnhaol, mae'r profion terfynol wedi dechrau bellach i baratoi ar gyfer gweithredu Recriwtio ar y We, a chyn hir byddwn mewn sefyllfa i gwblhau'r broses weithredu.

<u>**Cytundebau Canlyniad â Llywodraeth Cymru**</u>

10. Awgryma ein hunanasesiad cychwynnol y gellid colli 3 phwynt oherwydd targedau a gollwyd. Er gwaethaf y golled hon, mae'r cyngor mewn sefyllfa gref i fodloni'r gofyniad am ddyrannu grant llawn am ein perfformiad yn 2011/12, oherwydd byddai angen inni golli 6 phwynt er mwyn cael ein cosbi'n ariannol.

<u>**Diogelu**</u>

11. Cynyddodd absenoldeb oherwydd salwch yn y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd o 15.4 diwrnod yn 2010-11 i 17.0 diwrnod yn 2011-12. Mae gan y gwasanaeth lefelau cymharol uchel o absenoldeb oherwydd salwch o'i gymharu â gwasanaethau eraill yn y cyngor, a nodwyd bod hwn yn faes i'w wella gan AGGCC yn ei Adolygiad a Gwerthusiad Perfformiad Blynyddol 2010-11.

12. Mae dau fesur perfformiad ychwanegol yn y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd, a amlygwyd ill dau gan AGGCC y llynedd, islaw'r targed ar gyfer 2011-12 ac islaw'r canolrif sydd wedi'i ragamcanu i Gymru. Mae'r gwasanaeth yn dal yn monitro'r mesurau hyn, ac yn llunio adroddiadau amdanynt, drwy'r Cynllun Gwasanaeth ac mae'n cadw cynlluniau i wella perfformiad.

    12.1. **Y ganran o adolygiadau o gynlluniau plant mewn angen a gyflawnwyd yn unol â'r amserlen statudol.** Er bod perfformiad wedi gwella o 50.9% yn 2010-11 i 55.2% yn 2011-12, rydym yn dal ymhell islaw canolrif disgwyliedig Cymru a'n targed ni ein hunain o 78.5%. Nodwyd bod hwn yn "faes y mae gofyn ei wella ar unwaith ac yn sylweddol" gan AGGCC yn ei Adolygiad a Gwerthusiad

Perfformiad Blynyddol 2010-11. Dywed y gwasanaeth y bydd grŵp gorchwyl a gorffen yn cael ei alw yn y ddeufis nesaf i ddatrys materion arfer, proses a chofnodi.

12.2. **Y ganran o ymweliadau statudol â phlant sy'n derbyn gofal a oedd i ddigwydd yn y flwyddyn a ddigwyddodd yn unol â rheoliadau.** Gwellodd y perfformiad o 72.9% yn 2010-11 i 83.7% yn 2011-12, ond roedd yn dal islaw ein targed o 90%. Er bod y gwelliant hwn yn debygol o symud y cyngor yn agosach at ganolrif Cymru, mae gwelliant parhaus yn ofynnol er mwyn croesi'r trothwy. Eto, amlygwyd y maes hwn gan AGGCC yn ei Adolygiad a Gwerthusiad Perfformiad Blynyddol 2010-11.

13. Er bod ein perfformiad ar gyfer rheoli risg atgyfeiriadau amddiffyn oedolion yn ystod 2011-12 wedi gwella o'i gymharu â'r man cychwyn yn 2008-09 (87.4% o'i gymharu ag 81.9%), mae'n bosibl y byddwn yn syrthio islaw Canolrif Cymru 2011/12 ar ôl i'r perfformiad waethygu ar ôl 2010/11. Fel y soniwyd ym mharagraff 4.2, amlygir mai'r dangosydd hwn yw'r unig ddangosydd ar gyfer amddiffyn oedolion agored i niwed, ac mae'n aros yn y Cynllun Gwasanaethau Busnes ac Oedolion i'w fonitro yn y dyfodol.


# Pennod 1: Dangosyddion 2012

**Sail resymegol:** Dangosyddion 2012 yw'r gyfres o ddangosyddion perfformiad cenedlaethol a ddewiswyd gan y cyngor i fod yn brocsi i werthuso a ydy'r Cyngor ar y trywydd cywir i fod yn "Gyngor Uchel ei Berfformiad". Mae'r gyfres yn cymharu ein perfformiad ag awdurdodau lleol eraill yng Nghymru i ganfod a ydym wedi dod yn "Gyngor Uchel ei Berfformiad" erbyn 2012.

| Statws wedi'i Ddiweddaru | Gwerthusiad Cyffredinol |
|---|---|
| 31 Mawrth 2012 | Melyn |

Ar y cyfan, roedd gennym yr uchelgais i berfformio yn hanner brig yr awdurdodau yng Nghymru ar gyfer holl Ddangosyddion 2012 erbyn diwedd Cynllun Corfforaethol 2009-12. Fodd bynnag, ar gyfer y dangosyddion hynny lle'r oeddem eisoes yn yr hanner brig ar ddechrau'r Cynllun Corfforaethol, ein nod oedd gwella'r safle hwn i fod yn chwarter brig yr awdurdodau yng Nghymru. Ar gyfer y dangosyddion lle'r oeddem eisoes yn y chwarter brig ar ddechrau'r Cynllun Corfforaethol, ein nod oedd cynnal y safle hwnnw. Dylid nodi bod y rhain wedi'u hystyried erioed fel targedau uchelgeisiol, ac roeddem yn teimlo bob amser y gallai fod yn bosibl dangos ein bod wedi dod yn "Gyngor Uchel ei Berfformiad" hyd yn oed os nad oeddem wedi llwyddo i gyrraedd yr holl dargedau hyn.

Yn seiliedig ar gynnydd a gyflawnwyd o'r flwyddyn ddechreuol, gall y cyngor arddangos cynnydd da gyda'r nod o fod yn "Gyngor Uchel ei Berfformiad". Er nad yw pob dangosydd yn debygol o fod yn y ddau chwartel brig, mae'r cynnydd cyffredinol a wnaethpwyd ers 2008-09 yn sylweddol, gan alluogi'r cyngor i fod yn gadarnhaol am ei gyflawniadau gyda dangosyddion 2012.




| | Man Cychwyn 2008/09 | 2009/10 | 2010/11 | Disgwyliad 2011/12 |
|---|---|---|---|---|
| Chwartel 1af | 9 | 12 | 13 | 13 |
| 2il Chwartel | 1 | 2 | 3 | 3 |
| Islaw'r Canolrif | 9 | 5 | 3 | 3 |

**Ffigur 1** Perfformiad blynyddol mewn perthynas â dangosyddion 2012 drwy gydol oes y Cynllun Corfforaethol, gyda'r disgwyliad cyfredol am berfformiad 2011/12.

**Sylwer:** Data dros dro yw'r data ar gyfer nifer o ddangosyddion 2012. Mae'r holl ffigurau'n rhai dros dro tra bydd Swyddfa Archwilio Cymru'n craffu ar y ffigurau yn ystod mis Mehefin 2012. Ar ôl craffu ar y data, bydd Llywodraeth Cymru'n cyhoeddi ffigurau'r holl awdurdodau lleol ar StatsCymru. Ar yr adeg hon y gallwn ailystyried ein perfformiad i ddiwygio ein meincnodau.

Mewn perthynas â'r dangosyddion hyn y disgwyliwn fod islaw Canolrif Cymru yn 2011/12:

- **Y ganran o'r holl ddisgyblion sy'n gadael addysg orfodol, hyfforddiant neu ddysgu seiliedig ar waith heb gymhwyster allanol cymeradwy.** Mae'r sefyllfa wedi gwella o 1.8% yn 2008-09 i 0.82% yn 2011-12. Fodd bynnag, mae hyn yn dal yn gymharol uchel o ran canran, ac mae'n gosod y cyngor islaw canolrif Cymru. Yn Sir Ddinbych, gadawodd un ar ddeg o ddisgyblion addysg orfodol, hyfforddiant neu ddysgu seiliedig ar waith heb gymhwyster allanol cymeradwy yn 2011-12. Daw'r gyfran fwyaf o ddisgyblion sy'n gadael heb gymhwyster o ardal y Rhyl. Mae hyn yn dal yn flaenoriaeth i'r Pennaeth Addysg, a fydd yn cael ei monitro yn y dyfodol drwy'r Cynllun Gwasanaeth Addysg.

- **Y ganran o atgyfeiriadau amddiffyn oedolion a gwblhawyd lle rheolwyd y risg.** Er bod ein perfformiad ar gyfer rheoli risg atgyfeiriadau amddiffyn oedolion yn ystod 2011-12 wedi gwella o'i gymharu â'r man cychwyn yn 2008-09 (87.4% o'i gymharu ag 81.9%), mae'n bosibl y byddwn yn syrthio islaw Canolrif Cymru 2011/12 ar ôl i'r perfformiad waethygu ar ôl 2010/11. Mae'r dangosydd hwn yn bwysig oherwydd amlygwyd mai hwn yw'r unig ddangosydd ar gyfer amddiffyn oedolion agored i niwed, ac mae'n dal yn y Cynllun Gwasanaethau Busnes ac Oedolion i'w fonitro yn y dyfodol.

- **Y ganran o Blant a oedd yn arfer Derbyn Gofal sydd mewn llety addas.** Rhagwelwn y bydd ein safle islaw Canolrif Cymru yn 2011/12. Y rheswm (fel ydoedd yn 2010-11) yw nifer bach o bobl â dedfrydau o garchar.

| DANGOSYDDION | Man Cychwyn 2008/09 | Chwartel 2008/09 | Data 2011/12 | Perfformiad 2011/12 |
|---|---|---|---|---|
| % o ddisgyblion sy'n gadael heb gymhwyster | 1.80 | Islaw'r Canolrif | 0.82 | Coch |
| % o blant sy'n derbyn gofal sy'n gadael heb gymhwyster | 0.00 | Chwartel Uchaf | 0.00 | Gwyrdd |
| Y sgôr pwyntiau cyfartalog i ddisgyblion 15 oed | 326 | Islaw'r Canolrif | 450 | Gwyrdd |
| % o ddatganiadau AAA a gyhoeddwyd mewn pryd, gan gynnwys eithriadau | 100 | Chwartel Uchaf | 100 | Gwyrdd |
| % o ddatganiadau AAA a gyhoeddwyd mewn pryd, heb eithriadau | 100 | Chwartel Uchaf | 100 | Gwyrdd |
| % o newid mewn allyriadau CO2 mewn adeiladau annomestig | -9.18 | Islaw'r Canolrif | 16.1 | Gwyrdd |
| % o unedau tai fforddiadwy newydd a ddarparwyd | 37.2 | Chwartel Uchaf | 31.5 | Oren |
| Absenoldeb oherwydd salwch (diwrnodau a gollwyd i bob aelod cyfwerth ag amser llawn) | 12.9 | Islaw'r Canolrif | 9.47 | Oren |
| % o ddigartrefedd posibl a ataliwyd am 6 mis | 97.8 | Chwartel Uchaf | 97.7 | Melyn |
| Amser i gyflenwi Grant Cyfleusterau i'r Anabl (diwrnodau calendr) | 471 | Islaw'r Canolrif | 219 | Gwyrdd |
| % o ailfeddiannu anheddau sector preifat | 8.25 | Chwartel Uchaf | 18.5 | Gwyrdd |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Cyfradd oedi cyn trosglwyddo gofal am resymau gofal cymdeithasol | 0.51 | Chwartel Uchaf | 0.50 | Gwyrdd |
| % o atgyfeiriadau amddiffyn oedolion a gwblhawyd gyda'r risg wedi'i reoli | 81.9 | Chwartel Uchaf | 87.4 | Coch |
| % o blant sy'n derbyn gofal sy'n cael profiad o 1 neu ragor o drefniadau pontio | 19.1 | Islaw'r Canolrif | 8.51 | Gwyrdd |
| % o blant a oedd yn arfer derbyn gofal sydd mewn cysylltiad | 100 | Chwartel Uchaf | 100 | Gwyrdd |
| % o blant a oedd yn arfer derbyn gofal sydd mewn cysylltiad ac sydd mewn llety addas | 92.9 | Canolrif | 85.7 | Coch |
| % o blant a oedd yn arfer derbyn gofal sydd mewn cysylltiad ac sydd mewn cyflogaeth, addysg neu hyfforddiant | 50.0 | Islaw'r Canolrif | 64.3 | Oren |
| % o wastraff sy'n cael ei anfon i'r safle claddu sbwriel | 69.1 | Islaw'r Canolrif | 40.8 | Gwyrdd |
| % o wastraff sy'n cael ei ailddefnyddio, ei ailgylchu neu ei gompostio | 30.7 | Islaw'r Canolrif | 57.6 | Gwyrdd |

# Pennod 2: Blaenoriaeth Gorfforaethol – Newid Demograffig

Roedd blaenoriaeth gorfforaethol Newid Demograffig yn nodi bod angen i'r cyngor ganolbwyntio ar ddwy her allweddol o'r newidiadau yn y ddynamig boblogaeth yn Sir Ddinbych. Yr her gyntaf yw rhoi cyfleoedd sy'n galluogi pobl hŷn a'r rheini ag anableddau i fyw bywydau iachus, gweithgar ac annibynnol. Yr ail her yw cynllunio ar gyfer anghenion y rheini sy'n dod yn fregus ac yn ddibynnol, y mae angen gofalu amdanynt.

Mae'r flaenoriaeth gorfforaethol hon yn cynnwys tri chanlyniad, a gynlluniwyd i effeithio'n gadarnhaol ar yr heriau sy'n wynebu'r cyngor yn sgil y newidiadau yn y ddynameg boblogaeth yn Sir Ddinbych.

## Canlyniad 1

> **Bod pobl hŷn yn gallu byw'n annibynnol am hirach**
>
> **Sail resymegol:** Mae'r canlyniad hwn yn ymwneud â galluogi pobl hŷn i fyw'n ddiogel ac yn annibynnol yn eu cymuned, heb fod angen gofal preswyl arnynt. I wneud hyn, canolbwyntiwyd ar wasanaethau sy'n hyrwyddo annibyniaeth (h.y. gofal canolradd).

| Statws wedi'i Ddiweddaru | Gwerthusiad Cyffredinol |
|---|---|
| 31 Mawrth 2012 | Gwyrdd |

Yn seiliedig ar y cynnydd a gyflawnwyd ers y flwyddyn ddechreuol, gall y cyngor arddangos rhagoriaeth, gan edrych yn gadarnhaol ar ei nod o hyrwyddo annibyniaeth. I gefnogi hyn, gostyngwyd nifer a chyfradd y cleientiaid a gefnogir mewn cartrefi gofal, cynyddwyd nifer y cleientiaid nad oes angen cymorth gofal cymdeithasol arnynt rhagor, a pharhawyd i gefnogi'r cleientiaid hynny yn y gymuned.

| DANGOSYDDION | Man cychwyn | Data 2011/12 | Targed 2011/12 | Perfformiad |
|---|---|---|---|---|
| Cefais gymorth gan y cyngor i fyw'n annibynnol (%) | 62.9 | 70.8 | Cynnydd | Gwyrdd |
| Bydd y cyngor yn helpu pan fydd angen cymorth gofal cymdeithasol arnaf (%) | 63.1 | 70.1 | Cynnydd | Gwyrdd |
| Cleientiaid a gefnogwyd yn y gymuned (65+ oed) (%) | 84.6 | 84.2 | 87 | Melyn |
| Fflatiau Gofal Ychwanegol a feddiannwyd (%) | amh. | 100 | 100 | Gwyrdd |
| Pobl nad oes angen gwasanaeth gofal cymdeithasol arnynt rhagor (%) | amh. | 69 | 55 | Gwyrdd |
| Cleientiaid a gefnogwyd mewn cartrefi gofal (65+ oed) (cyfradd) | 26.0 | 22.7 | 25.75 | Gwyrdd |

| MESURAU PERFFORMIAD | Man cychwyn | Data 2011/12 | Targed 2011/12 | Perfformiad |
|---|---|---|---|---|
| Fflatiau Gofal Ychwanegol yn Rhagor (nifer) | 0 | 139 | 139 | Gwyrdd |
| Pobl hŷn sy'n cael "Teleofal" (nifer) | 387 | 425 | 400 | Gwyrdd |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Pobl sy'n cael "Ailalluogi a Derbyn" (nifer) | amh. | 2549 | 500 | Gwyrdd |
| Gofalwyr oedolyn y cynigiwyd asesiad iddynt (%) | 70.5 | 75.6 | 85 | Coch |
| Cleientiaid â chynllun gofal a adolygwyd yn ystod y flwyddyn (%) | 70.5 | 80.5 | 85 | Coch |
| Cleientiaid yr adolygwyd eu hanghenion a'u cynllun gofal (%) | amh. | 85.6 | 90 | Melyn |

| GWAITH GWELLA | | Perfformiad |
|---|---|---|
| Gwella'r amrywiaeth o wasanaethau i ofalwyr sy'n hyrwyddo trefniadau gofal anffurfiol | Cyflawn | Gwyrdd |
| Datblygu ymhellach Ailalluogi mewn Tai Gofal Ychwanegol | Ar Waith | Gwyrdd |
| Datblygu ymhellach Ailalluogi mewn Tai Gwarchod | Cyflawn | Gwyrdd |
| Datblygu ymhellach Ailalluogi gyda darparwyr cymorth tai | Cyflawn | Gwyrdd |
| Datblygu ymhellach ail-alluogi gyda darparwyr sector annibynnol | Cyflawn | Gwyrdd |
| Agor Llys Awelon (Gofal Ychwanegol Rhuthun) | Cyflawn | Gwyrdd |
| Cynlluniau Cynnydd am Dai Gofal Ychwanegol yn Ninbych | Ar Waith | Gwyrdd |
| Ail-lansio Taliadau Uniongyrchol | Cyflawn | Gwyrdd |
| Adolygu ac ail-ffurfweddu gwasanaethau dydd i gefnogi annibyniaeth | Ar Waith | Ambr |
| Adolygu priodoldeb lleihau pecynnau gofal a hyrwyddo annibyniaeth | Ar Waith | Gwyrdd |

- Roedd yr adborth o Arolwg y Preswylydd yn gadarnhaol, gan ddatgelu gwell canfyddiad am gymorth byw'n annibynnol a gofal cymdeithasol adeg yr arolwg. Mae'n debyg bod y nod o leihau dibyniaeth ar gartrefi gofal a helpu mwy o bobl i fyw'n annibynnol yn eu cymuned yn llwyddo.
- Mae'r ganran o ofalwyr defnyddwyr gwasanaethau oedolion y cynigiwyd asesiad iddynt wedi cynyddu o fan cychwyn o 70.5% yn 2008/09 i 75.6% yn 2011/12. Mae hwn yn dal yn faes i'w wella, ac mae'r gwasanaeth yn bwriadu ei unioni drwy archwilio prosesau a gweithdrefnau yn 2012/13. Fodd bynnag, mae'r ganran o ofalwyr sy'n cael cymorth ar ôl asesiad yn dal yn cynyddu gyda 97.5% o'r rheini a aseswyd yn 2011/12 yn cael cymorth priodol.

## Canlyniad 2

**Bod pobl ag anableddau dysgu'n gallu byw'n annibynnol am hirach**

**Sail resymegol:** Nod y canlyniad hwn yw galluogi pobl ag anableddau dysgu i fyw'n ddiogel ac yn annibynnol yn eu cymuned. I wneud hyn, mae'r cyngor yn anelu at newid cydbwysedd y rheini y mae angen cymorth arnynt mewn cartrefi gofal drwy gynnig y cymorth angenrheidiol i'r unigolion hynny a all elwa ar fyw'n annibynnol yn eu cartrefi eu hunain.

| Statws wedi'i Ddiweddaru | Gwerthusiad Cyffredinol |
|---|---|
| 31 Mawrth 2012 | Gwyrdd |

Ar sail y cynnydd a gafwyd ers y flwyddyn ddechreuol, gall y cyngor arddangos rhagoriaeth, wrth helpu pobl ag anableddau dysgu i fyw'n annibynnol am hirach. Mae'r cyngor wedi llwyddo i newid y cydbwysedd i gynyddu nifer a chyfradd y bobl sy'n cael cymorth gartref ac i leihau nifer a chyfradd y bobl sy'n byw mewn cartrefi gofal.

| DANGOSYDDION | Man Cychwyn | Data 2011/12 | Targed 2011/12 | Perfformiad |
|---|---|---|---|---|
| Oedolion (ag anabledd dysgu) sy'n cael cymorth Cartref Gofal (cyfradd) | 0.70 | 0.54 | 0.55 | Gwyrdd |
| Oedolion (ag anabledd dysgu) sy'n cael cymorth Gartref (cyfradd) | 3.82 | 4.47 | 4.20 | Gwyrdd |

| MESURAU PERFFORMIAD | Man Cychwyn | Data 2011/12 | Targed 2011/12 | Perfformiad |
|---|---|---|---|---|
| Oedolion (ag anabledd dysgu) sy'n cael cymorth Cartref Gofal (nifer) | 40 | 30 | 32 | Gwyrdd |
| Oedolion (ag anabledd dysgu) sy'n cael cymorth Gartref (nifer) | 217 | 250 | 240 | Gwyrdd |

| GWAITH GWELLA | | Perfformiad |
|---|---|---|
| Adeiladu cynllun Byw'n Annibynnol gyda Chymorth Dwys yn Henllan | Ar Waith | Gwyrdd |
| Cynyddu gweithgarwch masnachol y busnesau cyfle gwaith mewnol | Ar Waith | Gwyrdd |
| Cynyddu gweithgarwch masnachol y busnesau cyfle gwaith mewnol | Cyflawn | Gwyrdd |

- Mae cynllun peilot llwyddiannus o fethodoleg Cymorth a Gyfarwyddir gan Ddinasyddion ar draws y tîm anabledd dysgu wedi galluogi gwelliant.

- Un maes gwaith allweddol fu'r trefniadau Byw'n Annibynnol gyda Chymorth Dwys i adeiladu cyfleusterau tai i bobl ag anableddau dysgu. Ar ôl oedi cyn dechrau oherwydd cymhlethdodau cynllunio, mae'r prosiect ar y trywydd cywir bellach i'w gwblhau yn unol ag amserlen ddiwygiedig. Ym mis Mawrth 2012, dyfarnwyd y contract am gymorth. Mae'r darparwr a ddewiswyd yn gweithio gyda'r tîm anableddau dysgu ar gynlluniau pontio gyda'r tenantiaid a nodwyd.

## Canlyniad 3

> **Bod mentrau cymunedol yn bodloni anghenion poblogaeth gynyddol o bobl hŷn ac anabl**
>
> **Sail resymegol:** Mae'r canlyniad hwn yn ymwneud â'r cyngor yn cyflenwi mentrau cymunedol gyda'r nod o fodloni anghenion poblogaeth gynyddol o bobl hŷn ac anabl er mwyn gwella eu hiechyd a'u lles.

| Statws wedi'i Ddiweddaru | Gwerthusiad Cyffredinol |
|---|---|
| 31 Mawrth 2012 | Melyn |

Yn seiliedig ar y cynnydd a gyflawnwyd ers y flwyddyn ddechreuol, gall y cyngor arddangos perfformiad da gyda mentrau cymunedol i fodloni angen poblogaeth gynyddol o bobl hŷn ac anabl.

| DANGOSYDDION | Man Cychwyn | Data 2011/12 | Targed 2011/12 | Perfformiad |
|---|---|---|---|---|
| Cefais gymorth gan y cyngor i fyw'n annibynnol (%) | 62.9 | 70.3 | Cynnydd | Gwyrdd |
| Helpodd y cyngor bobl agored i niwed i fyw'n annibynnol (%) | 71.5 | 77.2 | Cynnydd | Gwyrdd |
| Bydd y cyngor yn fy helpu pan fydd angen cymorth gofal cymdeithasol arnaf (%) | 63.1 | 70.1 | Cynnydd | Gwyrdd |
| NWC: Nifer y bobl a gefnogwyd allan o statws NEET | am. | 95 | 279 | Coch |
| NWC: Pobl sy'n teimlo bod ganddynt fwy o ran yn y gymuned | am. | | Man cychwyn | amherthnasol |
| NWC: Pobl sy'n dweud eu bod yn gofalu'n well am eu hunain | am. | | Man cychwyn | amherthnasol |
| NWC: Pobl sy'n teimlo'n fwy hyderus | am. | | Man cychwyn | amherthnasol |
| NWC: Pobl sy'n dweud eu bod yn ymfalchïo'n fwy yn eu hunain | am. | | Man cychwyn | amherthnasol |
| NWC: Pobl sy'n gallu uniaethu'n well ag eraill | am. | | Man cychwyn | amherthnasol |
| NWC: Pobl a gyflwynwyd i weithgareddau mwy iachus | am. | | Man cychwyn | amherthnasol |
| NWC: Pobl sy'n teimlo'n fwy trefnus yn eu bywydau bob dydd | am. | | Man cychwyn | amherthnasol |

- Mae'r dangosyddion allweddol o Arolwg y Preswylydd yn cyflwyno darlun cadarnhaol o ganfyddiad pobl am gymorth gofal cymdeithasol. Fodd bynnag, mae'r dangosydd allweddol o'r prosiect Cysylltiadau Gwaith Newydd (NWC) sef cefnogi pobl i addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant yn cyflwyno darlun gwahanol iawn o effaith wirioneddol ein hymdrechion. Mae'r prosiect yn gweithio gyda'r rheini sydd bellach i ffwrdd o'r farchnad lafur. Mae'r cymorth yn benodol ac yn aml ar gyfer y tymor hir. Mae'r math hwn o gymorth yn hynod werthfawr ac, er nad yw'n cael ei fesur at ddibenion adrodd, mae'n arwydd o gam sylweddol ymlaen i'r unigolion hynny.

| MESURAU PERFFORMIAD | Man Cychwyn | Data 2011/12 | Targed 2011/12 | Perfformiad |
|---|---|---|---|---|
| NWC: Nifer y bobl sy'n ennill cymwysterau | am. | 8 | 131 | Coch |
| NWC: Nifer y bobl a helpwyd i gyflogaeth | am. | 25 | 37 | Coch |
| NWC: Nifer y bobl a helpwyd i wirfoddoli | am. | 51 | am. | amherthnasol |
| NWC: Nifer y bobl yn cymryd rhan | am. | 536 | 350 | Gwyrdd |
| Nifer y bobl a gefnogwyd islaw llinellau tlodi 60% | 850 | 1138 | 1000 | Gwyrdd |
| Enillion credyd treth a budd-dal a gadarnhawyd (£m) | 7.0 | 8.2 | 7.0 | Gwyrdd |
| Dyledion a ddatryswyd (£m) | 15.0 | 17.2 | 15.0 | Gwyrdd |
| Pobl anabl a gyfranogodd mewn sesiynau chwaraeon i'r anabl | 8504 | 3012 | 8500 | Coch |
| Pobl hŷn a ymrestrodd ar y rhaglen "Clic Cyntaf" | 215 | 823 | 400 | Gwyrdd |
| Pobl hŷn a gyfranogodd mewn gweithgarwch corfforol | am. | 130 | 200 | Oren |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Pobl a gymerodd ran yn y cynllun "tele-gyfeillion" | 20 | 62 | 40 | Gwyrdd |
| % o gyfradd cwblhau'r Cynllun Cenedlaethol i Atgyfeirio Cleifion i Wneud Ymarfer Corff | am. | 51 | 41 | Gwyrdd |
| % o atgyfeiriadau amddiffyn oedolion gyda'r risg wedi'i reoli | 81.9 | 87.3 | 95 | Coch |

| GWAITH GWELLA | | Perfformiad |
|---|---|---|
| Menter Gymunedol: Model Grymuso Dinasyddion | Cyflawn | Gwyrdd |
| Menter Gymunedol: Nofio am Ddim | Cyflawn | Gwyrdd |
| Menter Gymunedol: Cysylltiadau Gwaith Newydd | Cyflawn | Gwyrdd |
| Menter Gymunedol: Tele-Gyfeillion | Cyflawn | Gwyrdd |
| Menter Gymunedol: Teleofal | Cyflawn | Gwyrdd |
| Sicrhau bod pobl hŷn yn cael eu dweud eu dweud yn uniongyrchol am y blaenoriaethau i'r rhaglen hyfforddi flynyddol | Cyflawn | Gwyrdd |
| Gwerthuso effaith gofal ychwanegol ac ail-alluogi ar ymdeimlad pobl o les | Ar Waith | Gwyrdd |
| Clic Cyntaf: Sgiliau Cyfrifiadur i Bobl Hŷn | Cyflawn | Gwyrdd |
| Gweithredu Strategaeth Datblygu Pobl Hŷn a rhaglen Urddas LIC | Cyflawn | Gwyrdd |
| Cynllun Cenedlaethol i Atgyfeirio Cleifion i Wneud Ymarfer Corff | Cyflawn | Gwyrdd |
| Arwain a gweithredu Amddiffyn Oedolion Agored i Niwed | Cyflawn | Gwyrdd |
| Recriwtio a hyfforddi hyd at 6 o bobl hŷn i hyrwyddo rhaglen Urddas LIC | Cyflawn | Gwyrdd |
| Adolygu cynlluniau sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn | Cyflawn | Gwyrdd |
| Gweithio gyda chymunedau a'r trydydd sector i annog annibyniaeth | Cyflawn | Gwyrdd |
| Gweithio gyda Gwasanaethau Hamdden i hyrwyddo a datblygu cyfleoedd i bobl hŷn | Cyflawn | Gwyrdd |

- Mae'r targedau NWC a gyflwynir yn yr adroddiad hwn yn adlewyrchu'r cynigion (blynyddol) gwreiddiol ym mhrosiect NWC. Mae trafodaethau wedi dechrau â Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru i ail-broffilio'r targedau. Mae'r targedau wedi'u hail-broffilio'n debygol o fod yn llawer is na'r rhai gwreiddiol. Mae prosiect NWC yn disgwyl gwelliannau pellach y flwyddyn nesaf gan fod gwasanaethau hyfforddi a staff cyflawn ar waith erbyn hyn.

- Dengys y ffigurau cyfranogiad pobl anabl ostyngiad sylweddol yn 2011/12 am eu bod yn cynrychioli ffigurau nofio yn unig. Nid oedd Swyddog Chwaraeon i'r Anabl mewn swydd rhwng mis Mehefin 2011 a mis Ebrill 2012, ac roedd hyn yn cyfyngu'n ddifrifol ar amrywiaeth y cyfleoedd am sesiynau chwaraeon i'r anabl.

- Mae'r broses o reoli risg atgyfeiriadau amddiffyn oedolion wedi gwella ychydig ers y man cychwyn; fodd bynnag, mae perfformiad ledled Cymru'n gwella'n gyflymach, ac mae'n bosibl y bydd hyn yn effeithio'n negyddol ar ein safle cymharol.

# Pennod 3: Blaenoriaeth Gorfforaethol – Adfywio

Roedd blaenoriaeth gorfforaethol Adfywio yn nodi bod angen i'r cyngor ganolbwyntio ar y pocedi amddifadedd yn Sir Ddinbych. Anelodd y cyngor at dynnu cyllid allanol i adfywio'r ardaloedd o amddifadedd sylweddol yng ngogledd y sir. Anelodd y cyngor hefyd at gydlynu cynllun datblygu gwledig i arallgyfeirio economïau gwledig ac i gefnogi cymunedau gwledig.

Mae'r flaenoriaeth gorfforaethol hon yn cynnwys tri chanlyniad, a gynlluniwyd i effeithio'n gadarnhaol ar yr heriau sy'n wynebu'r cyngor i wella'r economi wledig ac i ddenu cyllid i adfywio gogledd y sir.

## Canlyniad 4

> **Bydd pocedi o amddifadedd economaidd-gymdeithasol uchel yn y llain arfordirol ogleddol, yn arbennig y rheini yn y Rhyl, yn cael sylw er mwyn eu galluogi i ddal i fyny â rhannau eraill o Gymru.**
>
> **Sail resymegol:** Nod y canlyniad hwn yw pontio'r bwlch rhwng y cymunedau mwyaf amddifadus yn y Rhyl a gweddill Cymru drwy ganolbwyntio ar dri maes: yr economi, addysg a'r amgylchedd.

| Statws wedi'i Ddiweddaru | Gwerthusiad Cyffredinol |
|---|---|
| 31 Mawrth 2012 | Coch |

Yn seiliedig ar y cynnydd a wnaed ers y flwyddyn ddechreuol, nid yw'r cyngor yn gallu arddangos eto ei fod wedi llwyddo i bontio'r bwlch rhwng y cymunedau mwyaf amddifadus yn y Rhyl a gweddill Cymru. Mae Arolwg y Preswylydd hefyd yn amlygu bod canfyddiad y bobl sy'n byw yn y Rhyl am y lle yn gwaethygu. Fodd bynnag, mae mwyafrif y gwaith a gynlluniwyd yn mynd rhagddo'n dda, a gobeithir y bydd gweithgareddau felly'n effeithio'n gadarnhaol ar y canlyniad cyffredinol fel y'i mesurir gan y Dangosyddion.

| DANGOSYDDION | Man Cychwyn | Data 2011/12 | Targed 2011/12 | Perfformiad |
|---|---|---|---|---|
| Bodlonrwydd ar yr ardal leol fel lle i fyw ynddo (y Rhyl) | 76.6 | 74.2 | Cynnydd | Coch |
| Yr ardal leol (y Rhyl) wedi gwella, gwaethygu, neu aros yr un fath | 69.3 | 65.6 | Cynnydd | Coch |
| Sgôr Pwyntiau Cyfartalog wedi'i Chapio yn y Rhyl | 245 | 264 | 314 | Coch |
| Achosion o ddifrod troseddol yn y Rhyl | 74.0 | 29.0 | 56.5 | Gwyrdd |
| Gostyngiad cymharol mewn Hawlwyr y Lwfans Ceisio Gwaith ym mhob Ardal Cynnyrch Ehangach Haen Is yn y Rhyl | 3.86 | 3.98 | 3.30 | Coch |

| MESURAU PERFFORMIAD | Man Cychwyn | Data 2011/12 | Targed 2011/12 | Perfformiad |
|---|---|---|---|---|
| Pobl a gefnogwyd islaw llinellau tlodi 60% gan yr Uned Hawliau Lles | 181 | 266 | 732 | Coch |
| Tai Amlfeddiannaeth yr aethpwyd â hwy drwy'r cynllun trwyddedu | 0.00 | 41.0 | 30.0 | Gwyrdd |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| % o ddisgyblion blwyddyn 11 sy'n aros mewn addysg (y Rhyl) | 77.8 | 78.4 | 80.0 | Oren |

| GWAITH GWELLA | | Perfformiad |
|---|---|---|
| Ailwampio Sinema Apollo | Ar Waith | Gwyrdd |
| Cynllun Swyddfeydd y Bee and Station gynt | Ar Waith | Gwyrdd |
| Cwblhau a chyhoeddi Fframwaith Adfywio Strategol y Rhyl | Cyflawn | Gwyrdd |
| Cyflenwi Menter Treftadaeth Treflun y Rhyl | Ar Waith | Gwyrdd |
| Pont Cerddwyr a Beicwyr Harbwr y Foryd | Ar Waith | Ambr |
| Cyfnod 2 Harbwr y Foryd: unedau masnachol, sgwâr ac estyn wal y cei | Ar Waith | Ambr |
| Prosiect NEET: y Rhyl | Ar Waith | Gwyrdd |
| Prynu eiddo yn yr Ardal Adfywio Strategol | Ar Waith | Gwyrdd |

- Yn Arolwg y Preswylydd, nodir y canfyddiad negyddol cyffredinol gan breswylwyr am y Rhyl, sef yr ardal lle maent yn byw. Mae gan ardal y Rhyl gyfran lawer uwch o'r boblogaeth yn hawlio lwfans ceisio gwaith. Mae'r gostyngiad cymharol mewn hawlwyr Lwfans Ceisio Gwaith ym mhob Ardal Cynnyrch Ehangach Haen Is yn y Rhyl yn ymwneud â lleihau'r gwahaniaeth rhwng Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is yn y Rhyl a ffigur Sir Ddinbych. Mae'r darlun cyffredinol yn negyddol gyda bwlch mwy o faint ym mis Mawrth 2012 o'i gymharu â'r man cychwyn ym mis Mawrth 2009. Roedd gwelliant hefyd mewn cyrhaeddiad addysgol yn y Rhyl, ond mae'r cyrhaeddiad yn dal ymhell islaw cyfartaledd Sir Ddinbych a Chymru.

- Er ei fod wedi'i nodi fel ffigur COCH, nid yw'r ffigur ar gyfer nifer y bobl a gefnogwyd islaw'r llinellau tlodi 60% gan yr Uned Hawliau Lles yn adrodd y stori gyfan. Dim ond pobl a gefnogwyd gan yr Uned Hawliau Lles sy'n cael eu cyfrif gan y mesur perfformiad yn y canlyniad hwn, ond cafwyd newid ymwybodol tuag at gydweithio, gan olygu bod Canolfan Cyngor ar Bopeth Sir Ddinbych, Siop Cyngor ar Fudd-daliadau'r Rhyl, a Thîm Hawliau Lles y cyngor bellach yn ysgwyddo mwy o'r gwaith hwn. Yr un mesur yw'r mesur yn ein cytundeb canlyniad, ond mae hefyd yn cynnwys y cydweithio. Mae'r mesur cydweithio yn y cytundeb canlyniad yn cyflwyno perfformiad rhagorol ar gyfer y maes gwaith hwn.

## Canlyniad 5

**Byddwn yn cefnogi twf economaidd cynaliadwy drwy gynyddu nifer ac ansawdd y cyfleoedd swydd, drwy wella cyfleoedd i fusnesau dyfu a dechrau, a thrwy sicrhau bod tai ar gael sydd o'r ansawdd a'r nifer gofynnol.**

**Sail resymegol:** Mae'r canlyniad hwn yn ymwneud â'r hyn y gall y cyngor ei wneud i gefnogi twf economaidd cynaliadwy mewn hinsawdd economaidd ehangach drwy weithgarwch a dargedir.

| Statws wedi'i Ddiweddaru | Gwerthusiad Cyffredinol |
|---|---|
| 31 Mawrth 2012 | Oren |

Yn seiliedig ar y cynnydd a gyflawnwyd ers y flwyddyn ddechreuol, nid yw'r cyngor eto'n gallu arddangos rhagoriaeth o ran cefnogi twf economaidd cynaliadwy, am fod cyflwr cyffredinol yr economi genedlaethol yn ei rwystro.

| DANGOSYDDION | Man Cychwyn | Data 2011/12 | Targed 2011/12 | Perfformiad |
|---|---|---|---|---|
| Cymhareb prisiau tai cyfartalog ac enillion canolrifol | 6.81 | 5.11 | 6.84 | Gwyrdd |
| Gostyngiad cymharol mewn anweithgarwch economaidd | 26.7 | 25.0 | 27.5 | Gwyrdd |
| Gostyngiad cymharol mewn Hawlwyr y Lwfans Ceisio Gwaith yn Sir Ddinbych | 0.00 | 0.20 | 0.21 | Oren |

| MESURAU PERFFORMIAD | Man Cychwyn | Data 2011/12 | Targed 2011/12 | Perfformiad |
|---|---|---|---|---|
| Cefnogi pobl islaw llinell tlodi 60% | 161 | 266 | 732 | Coch |
| Nifer y mentrau cymdeithasol a gynorthwywyd | 2.00 | 10.0 | 18.0 | Coch |
| Nifer y busnesau a gafodd gymorth y cyngor | 53.0 | - | am. | am. |

| GWAITH GWELLA | | Perfformiad |
|---|---|---|
| Prosiect CANTATA II (*Celtic Authentic Niche Tourism Advancing the Atlantic Area*) | Cyflawn | Gwyrdd |
| Grantiau Busnes Cyngor Sir Ddinbych | Ar Waith | Gwyrdd |
| Grantiau Cymunedol Cyngor Sir Ddinbych | Ar Waith | Gwyrdd |
| Fforwm Sgiliau | Cyflawn | Gwyrdd |
| Prosiect Rhwydwaith Cymru ac Iwerddon ar gyfer Menter Gymdeithasol (WINSENT) | Ar Waith | Gwyrdd |
| Safonau Ansawdd Tai Cymru | Ar Waith | Gwyrdd |

- Mae poblogaeth Sir Ddinbych yn fwy economaidd weithgar o'i chymharu â Chymru, gyda'r gostyngiad diweddar mewn anweithgarwch economaidd yn gosod Sir Ddinbych mewn gwell safle na'n safle ar ddechrau'r Cynllun Corfforaethol. Mae cyfradd y rhai sy'n hawlio Lwfans Ceisio Gwaith yn Sir Ddinbych hefyd wedi gostwng ers ei hanterth ym mis Ionawr 2012, ond nid yw'r gwahaniaeth rhwng Sir Ddinbych a Chymru wedi newid, sef 0.20%.

- Fel y nodwyd yn gynharach, nid yw'r ffigur ar gyfer nifer y bobl a gefnogwyd islaw'r llinell tlodi 60% yn adlewyrchu'r newid diweddar tuag at gydweithio. Mae'r mesur yn ein cytundeb canlyniad, sy'n cynnwys y gwaith a wneir bellach gan Ganolfan Cyngor ar Bopeth Sir Ddinbych, Siop Cyngor ar Fudd-daliadau'r Rhyl, a Thîm Hawliau Lles y Cyngor, yn arddangos perfformiad rhagorol ar gyfer y maes gwaith hwn.

- Mae'r cymorth i fentrau cymdeithasol yn ymdrech ar y cyd â phartneriaid yn Iwerddon. Ni lwyddodd y canlyniadau o'r prosiect hwn i fodloni'r disgwyliad gwreiddiol. Mae gwahaniaeth yn y modd y mesurir targedau yn Iwerddon.

# Canlyniad 6

**Bydd cyfradd y dirywio yn yr economi wledig yn cael ei lleihau**

**Sail Resymegol:** Mae'r canlyniad hwn yn canolbwyntio ar yr hyn y mae'r cyngor yn ei wneud i wella cyflwr yr economi wledig drwy wneud gwaith gwella penodol.

| Statws wedi'i Ddiweddaru | Gwerthusiad Cyffredinol |
|---|---|
| 31 Mawrth 2012 | Gwyrdd |

Yn seiliedig ar y cynnydd a gyflawnwyd ers y flwyddyn ddechreuol, gall y cyngor arddangos rhagoriaeth o ran ei nod i leihau'r dirywio yn yr economi wledig. Mae cwblhau'n llwyddiannus y mesurau a'r gweithgarwch sy'n gysylltiedig â Chynllun Busnes Un y Cynllun Datblygu Gwledig (CDG) tua dechrau 2011/12 yn cyfrannu'n sylweddol at lwyddiant cyffredinol y canlyniad.

| DANGOSYDDION | Man Cychwyn | Data 2011/12 | Targed 2011/12 | Perfformiad |
|---|---|---|---|---|
| Cyfanswm y micro fusnesau sy'n cael cymorth | 0.00 | 7.00 | 7.00 | Gwyrdd |
| Nifer crynswth yr ymwelwyr ychwanegol | 0.00 | - | 3000 | - |

| MESURAU PERFFORMIAD | Man Cychwyn | Data 2011/12 | Targed 2011/12 | Perfformiad |
|---|---|---|---|---|
| Nifer crynswth y swyddi a grëwyd mewn micro fusnesau gwledig | 0.00 | 21.0 | 13.0 | Gwyrdd |
| Cymorth ariannol i ficro fentrau gwledig | 0.00 | 34.0 | 29.0 | Gwyrdd |
| Nifer y cyfleusterau pentref a gafodd eu gwella | 0.00 | 21.0 | 12.0 | Gwyrdd |

| GWAITH GWELLA | | Perfformiad |
|---|---|---|
| Cronfa Allweddol Wledig Sir Ddinbych | Cyflawn | Gwyrdd |
| Prosiect Cyrchfan Sir Ddinbych | Ar Waith | Gwyrdd |
| Grantiau i Ficro Fusnesau | Cyflawn | Gwyrdd |
| Prosiect Twristiaeth Werdd | Ar Waith | Gwyrdd |
| Prosiect Datblygu a Chreu Busnesau yn Sir Ddinbych Wledig | Ar Waith | Gwyrdd |

# Pennod 4: Blaenoriaeth Gorfforaethol – Moderneiddio Addysg

Mae blaenoriaeth gorfforaethol Moderneiddio Addysg yn cwmpasu tair ffrwd waith: gwella safonau mewn ysgolion a hyrwyddo cynhwysiant, moderneiddio ysgolion a chefnogi gwasanaethau i ysgolion. Bydd y tri maes gwaith hyn yn cyfrannu at nod y cyngor i sicrhau bod perfformiad Sir Ddinbych ymhlith y 10 brig yng Nghymru ar gyfer cyrhaeddiad cyfnod allweddol.

Mae'r flaenoriaeth gorfforaethol hon yn cynnwys un canlyniad, a gynlluniwyd i effeithio'n gadarnhaol ar yr heriau a wynebir gan y cyngor i wella safonau addysg yn y sir yn dilyn Arolygiad Estyn o Gyngor Sir Ddinbych yn 2007.

## Canlyniad 7

**Bydd Sir Ddinbych ymhlith y 10 awdurdod uchaf eu perfformiad yng Nghymru ar gyfer cyrhaeddiad addysgol**

**Sail Resymegol:** Mae'r canlyniad hwn yn canolbwyntio ar yr hyn y mae'r cyngor yn ei wneud i wella cyflwr yr economi wledig drwy wneud gwaith gwella penodol.

| Statws wedi'i Ddiweddaru | Gwerthusiad Cyffredinol |
|---|---|
| 31 Mawrth 2012 | Gwyrdd |

Yn seiliedig ar y cynnydd a gyflawnwyd ers y flwyddyn ddechreuol, gall y cyngor arddangos perfformiad rhagorol, ar ôl llwyddo i wella cyrhaeddiad addysgol ar draws yr holl ddangosyddion heblaw cyrhaeddiad yng nghyfnod allweddol un. Mae'r cyngor hefyd ymhlith y deg awdurdod uchaf eu perfformiad ar gyfer yr holl ddangosyddion heblaw cyfnodau allweddol un a thri.

| DANGOSYDDION | Man Cychwyn | Data 2011/12 | Targed 2011/12 | Perfformiad |
|---|---|---|---|---|
| Sgôr pwyntiau cyfartalog (15 oed) | 326 | 450 | 440 | Gwyrdd |
| Trothwy Lefel 2 gan gynnwys Saesneg/Cymraeg a Mathemateg | 40.4 | 52.5 | 52.5 | Gwyrdd |
| Trothwy Lefel 2 neu gymwysterau galwedigaethol cywerth | 51.5 | 71.4 | 66.0 | Gwyrdd |
| % sy'n cyflawni Dangosydd Pwnc Craidd yng Nghyfnod Allweddol 1 | 80.4 | 79.8 | 83.5 | Coch |
| % sy'n cyflawni Dangosydd Pwnc Craidd yng Nghyfnod Allweddol 2 | 76.5 | 82.3 | 79.5 | Gwyrdd |
| % sy'n cyflawni Dangosydd Pwnc Craidd yng Nghyfnod Allweddol 3 | 59.4 | 65.5 | 66.5 | Coch |
| % sy'n cyflawni Dangosydd Pwnc Craidd yng Nghyfnod Allweddol 4 | 40.3 | 51.3 | 50.0 | Gwyrdd |

| MESURAU PERFFORMIAD | Man Cychwyn | Data 2011/12 | Targed 2011/12 | Perfformiad |
|---|---|---|---|---|
| Bodlonrwydd ar addysg gynradd (5-11) | 91.2 | 93.2 | Cynnydd | Gwyrdd |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Bodlonrwydd ar addysg uwchradd (11-16) | 78.9 | 81.6 | Cynnydd | Gwyrdd |
| Diwrnodau a gollwyd i waharddiadau tymor penodol (<5) (cyfradd '000 o ddisgyblion) | 126 | 53.2 | Gostyngiad | Gwyrdd |
| Diwrnodau a gollwyd i waharddiadau tymor penodol (>5) (cyfradd '000 o ddisgyblion) | 3.50 | 0.90 | Gostyngiad | Gwyrdd |
| % o bresenoldeb gan ddisgyblion mewn ysgolion uwchradd ac arbennig | 91.2 | 91.7 | 91.9 | Orange |

| GWAITH GWELLA | | Perfformiad |
|---|---|---|
| Cwblhau ymgynghoriad ffurfiol ar gyfer Adolygiad Edeirnion | Ar Waith | Gwyrdd |
| Sefydlu cymunedau dysgu proffesiynol ar lefel ranbarthol, leol ac ysgol | Cyflawn | Gwyrdd |
| Adolygu systemau sy'n olrhain presenoldeb a gwaharddiadau | Cyflawn | Gwyrdd |
| Cynnal adolygiad o'r Cyfnod Sylfaen | Cyflawn | Gwyrdd |
| Cynnal adolygiad o'r gwasanaeth cynghori athrawon Cymraeg | Cyflawn | Gwyrdd |
| Cynnal proses hunanasesu a gwerthuso ysgol flynyddol ym mhob ysgol | Cyflawn | Gwyrdd |
| Cynnal adolygiadau perfformiad tymhorol gydag ysgolion uwchradd | Cyflawn | Gwyrdd |
| Gweithio gydag ysgolion uwchradd i sicrhau bod y cynnig cwricwlwm yn addas at ddiben | Cyflawn | Gwyrdd |

- Mae'r pryderon cyrhaeddiad yng nghyfnod allweddol un yn adlewyrchu bod dwy ysgol gynradd fawr a llwyddiannus wedi'u hepgor o'r canlyniadau canran cyffredinol. Maent wedi'u hepgor am eu bod yn cyfranogi yng nghynllun peilot y cyfnod sylfaen. Byddai cynnwys eu canlyniadau hwy wedi cael effaith gadarnhaol ar y safle cyffredinol.

- Mae perfformiad yng nghyfnod allweddol tri wedi gwella ers y man cychwyn yn 2008-09, ond roedd gwelliannau sylweddol ledled Cymru'n golygu nad oeddem yn gallu gwella ein safle cymharol i fod ymhlith y deg cyngor ar y brig. Dylid nodi bod Sir Ddinbych wedi canolbwyntio'n sylweddol ar wneud gwelliannau yng nghyfnodau allweddol dau a phedwar yn ystod 2011-12, ac y bydd hyn wedi cyfrannu at y gwelliant cymharol mwy yn y cyfnodau allweddol hyn.

- Mae'r gweithgareddau gwella wedi'u cwblhau. Bydd rhai'n mynd rhagddynt fel busnes fel arfer i gynnal y gwelliannau. Mae'r ymgynghoriad allweddol ar gyfer Adolygiad Edeirnion yn parhau gyda Llywodraeth Cymru a disgwylir penderfyniad yn ystod gwanwyn 2012.

# Pennod 5: Blaenoriaeth Gorfforaethol – Ffyrdd ac Amddiffynfeydd rhag Llifogydd

Y rhwydwaith ffyrdd yn Sir Ddinbych, gan gynnwys y seilwaith sy'n cefnogi'r rhwydwaith hwn, yw un o brif asedau'r sir. Mae'n ased cymhleth sy'n esblygu ac mae'n sail i bron yr holl weithgarwch yn yr ardal. Roedd tanfuddsoddiad yn y gorffennol wedi creu ôl-groniad sylweddol o waith cynnal a chadw, ac roedd y flaenoriaeth hon yn ceisio mynd i'r afael â hwnnw. Roedd Sir Ddinbych wedi dioddef hefyd o nifer o lifogydd ac mae gan y cyngor ran allweddol i'w chwarae mewn amddiffyn ein cymunedau.

Mae'r flaenoriaeth gorfforaethol hon yn cynnwys dau ganlyniad, a gynlluniwyd i effeithio'n gadarnhaol ar yr heriau sy'n wynebu'r cyngor i wella cyflwr ein rhwydwaith ffyrdd ac i amddiffyn cymunedau agored i niwed rhag risg llifogydd difrifol.

## Canlyniad 8

> **Bod preswylwyr ac ymwelwyr yn Sir Ddinbych yn gallu cael at rwydwaith ffyrdd diogel a threfnus**
>
> **Sail resymegol:** Roedd y canlyniad hwn yn adlewyrchu uchelgais y cyngor i ddarparu rhwydwaith ffyrdd diogel a threfnus i breswylwyr ac ymwelwyr. Roedd y canlyniad yn cynnwys gwelliannau mewn diogelwch ffyrdd a rheoli ffyrdd yn ogystal â gwella ansawdd cyffredinol ein rhwydwaith ffyrdd.

| Statws wedi'i Ddiweddaru | Gwerthusiad Cyffredinol |
|---|---|
| 31 Mawrth 2012 | Oren |

Ar y cyfan, y neges allweddol yw nad yw'r cyngor eto'n gallu arddangos rhagoriaeth yng nghyflwr ein rhwydwaith ffyrdd. Fodd bynnag, mae'n gallu arddangos gwelliant diweddar (rhwng 2010-11 a 2011-12) yn ein dangosyddion cyflwr ffyrdd ar gyfer ffyrdd dosbarth B a dosbarth C a chyfradd arafach o ddirywio nag sy'n digwydd mewn awdurdodau eraill ar gyfer ein ffyrdd dosbarth A. Mae'n anffodus bod canlyniadau Arolwg y Preswylydd ychydig yn waeth eleni gan mai'n awr yn unig y mae effaith y buddsoddiad ychwanegol sylweddol yn ein rhaglen cynnal a chadw priffyrdd yn ystod 2011/12 yn dod i'r amlwg drwy'r data a arolygwyd yn rhan o'r Dangosyddion Cyflwr Ffyrdd.

| DANGOSYDDION | Man Cychwyn 2008/09 | Data 2011/12 | Targed 2011/12 | Perfformiad |
|---|---|---|---|---|
| Bodlonrwydd ar 'gynnal y priffyrdd mewn cyflwr da' | 63.8 | 60.8 | Cynnydd | Coch |
| Bodlonrwydd ar 'gynnal strydoedd mewn cyflwr da' | 64.8 | 62.8 | Cynnydd | Coch |
| Bodlonrwydd ar 'gynnal llwybrau troed mewn cyflwr da' | 68.1 | 63.9 | Cynnydd | Coch |
| Categori C (Gwaith Stryd) wedi'i arolygu cyn pen amserlenni | am. | am. | am. | am. |
| % o ffyrdd A, B ac C sydd mewn cyflwr gwael cyffredinol | 8.48 | 11.2 | amh. | amh. |
| % o hysbysiadau tâl cosb sy'n berthnasol i droseddau ar y stryd | 55.4 | 72.6 | 70.0 | Gwyrdd |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Damweiniau sy'n cynnwys Anaf (am bob 100 km) | 3.10 | 2.36 | 4.00 | Gwyrdd |
| Damweiniau sy'n cynnwys Anaf Difrifol neu Farwol (am bob 100km) | 0.67 | 0.47 | 0.65 | Gwyrdd |

| MESURAU PERFFORMIAD | Man Cychwyn | Data 2011/12 | Targed 2011/12 | Perfformiad |
|---|---|---|---|---|
| Nifer y diwrnodau a gymerwyd i drwsio goleuadau stryd a oedd wedi methu | 2.04 | 1.20 | 1.00 | Oren |
| Nifer y cyfranogwyr mewn hyfforddiant beicio (9-11 oed) | 763 | 711 | 700 | Gwyrdd |
| Nifer y cyfranogwyr a gafodd gymhorthdal gan y cyngor i wneud Pass Plus | 112 | 97.0 | 110 | Coch |
| % o briffyrdd ym mandiau coch/melyn y mesurau SCRIM | 7.31 | 9.07 | 1.16 | Coch |
| % o ffyrdd gyda Mynegai Cyflwr Ffyrdd gwael cyffredinol | amh. | 2.64 | amh. | amh. |
| % a oedd yn manteisio ar Glwb Traffig i blant | 31.0 | 31.0 | 35.0 | Oren |

| GWAITH GWELLA | | Perfformiad |
|---|---|---|
| Rhaglen Cynnal a Chadw Pontydd | Cyflawn | Gwyrdd |
| Parhau rhaglen hyfforddiant Kerbcraft a hyfforddiant beicio | Cyflawn | Gwyrdd |
| Datblygu'r System Rheoli Asedau Priffyrdd a'i defnyddio'n ehangach | | |
| Rheoli Asedau Priffyrdd: Gweithredu symoleg | Ar Waith | Ambr |
| Rhaglen Cynnal a Chadw Cyfalaf Ffyrdd a Phriffyrdd | Cyflawn | Gwyrdd |
| Grŵp Gorchwyl a Gorffen yn edrych ar bolisi parcio preswyl | Cyflawn | Gwyrdd |
| Adolygiad y Grŵp Gorchwyl a Gorffen o orfodi parcio | | |
| Rhaglen Cynllun Traffig | Cyflawn | Gwyrdd |
| Lleihau'r anafiadau ar y ffyrdd ar rwydwaith ffyrdd y sir | Ar Waith | |

- Awgryma'r dangosyddion (yn arbennig gwelliannau ers 2010-11) fod y cyngor yn gwneud cynnydd tuag at gyflawni'r canlyniad. Fodd bynnag, dengys y gyfres amser o ddangosyddion cyflwr ffyrdd cenedlaethol fod y cyngor wedi dechrau o sylfaen isel a'i fod yn dal ymhell y tu ôl i awdurdodau eraill.

- Dengys ein dangosyddion diogelwch lefel ragorol o berfformiad a thuedd sy'n gwella, er gallai perfformiad gwael mewn perthynas â'r mesur SCRIM i atal sgidio fod yn risg i elfennau diogelwch y canlyniad.

- Mae'r sgôr OREN a roddwyd i'r mesur trwsio goleuadau stryd ychydig yn gamarweiniol. Mae perfformiad yn eithriadol o'i gymharu ag awdurdodau eraill yng Nghymru er ei fod ychydig yn waeth na'n cyflawniad mewn blynyddoedd blaenorol.

- Mae'r dangosydd Pass Plus yn dangos bod niferoedd wedi gostwng o'u cymharu â blynyddoedd blaenorol; fodd bynnag, hwyrach y bydd dull meincnodi mwy soffistigedig yn ein galluogi i ddeall yn gliriach ai perfformiad COCH gwirioneddol yw hwn neu ddim ond amrywiad gyda lefelau derbyniol.

- Mae'r dangosydd cyflwr ffyrdd yn enghraifft o arloesi sylweddol a bydd casglu data'r flwyddyn gyntaf yn helpu i ddarparu'r cyd-destun i dargedau ac ymyriadau'r flwyddyn nesaf. Ceir ychydig o amrywiad ledled y sir mewn perthynas â'r ganran o ffyrdd yng Ngrŵp 1 (y cyflwr gwaethaf). Yn Nyffryn Dyfrdwy yn arbennig, mae canran uwch o ffyrdd yng Ngrŵp 1.

# Canlyniad 9

**Bod eiddo mewn llai o berygl o lifogydd**

**Sail resymegol:** Mae’r canlyniad hwn yn llwyr gysylltiedig â gwaith y cyngor i amddiffyn rhag llifogydd, lle ceisiwn amddiffyn eiddo cynyddol rhag risg llifogydd rheolaidd.

| Statws wedi’i Ddiweddaru | Gwerthusiad Cyffredinol |
|---|---|
| 31 Mawrth 2012 | Melyn |

Yn seiliedig ar y cynnydd a gyflawnwyd ers y flwyddyn ddechreuol, gall y cyngor arddangos perfformiad da, ar ôl llwyddo i gyflawni cynlluniau amddiffyn rhag llifogydd yn Llangollen a Dinbych. Mae cynllun llifogydd gorllewin y Rhyl wedi dechrau ac ni fydd wedi’i gwblhau tan 2012/13.

| DANGOSYDDION | Man Cychwyn | Data 2011/12 | Targed 2011/12 | Perfformiad |
|---|---|---|---|---|
| % o eiddo risg uchel gyda llai o risg llifogydd | 0.00 | 3.92 | 4.49 | Coch |
| Nifer yr eiddo risg uchel gyda llai o risg llifogydd | 0.00 | 580 | 665 | Coch |

| MESURAU PERFFORMIAD | Man Cychwyn | Data 2011/12 | Targed 2011/12 | Perfformiad |
|---|---|---|---|---|
| Nifer y bobl sy’n cael gwybodaeth drwy wefan | amh. | 1372 | 1200 | Gwyrdd |
| Nifer y bobl sy’n cymryd rhan mewn digwyddiadau cyhoeddus | amh. | 1587 | 1000 | Gwyrdd |
| Nifer y disgyblion sy’n cyfranogi mewn gwaith ymwybyddiaeth am lifogydd | amh. | 619 | 500 | Gwyrdd |

| GWAITH GWELLA | | Perfformiad |
|---|---|---|
| Strategaeth Amddiffyn yr Arfordir | Ar Waith | Gwyrdd |
| Penodi contractwyr | Cyflawn | Gwyrdd |
| Prosiect ymwybyddiaeth am lifogydd mewn ysgolion | Cyflawn | Gwyrdd |

- Gan fod Llywodraeth Cymru wedi penderfynu peidio â chefnogi Cynllun Amddiffyn Corwen rhag Llifogydd, nid oedd y cyllid angenrheidiol ar gael i amddiffyn nifer yr adeiladau a dargedwyd yn 2011/12. Roedd hyn yn golygu na fyddai’r dangosyddion wedi llwyddo i gyrraedd eu targedau, er bod y gwaith gwella’n mynd rhagddo yn ôl yr amserlen.

- Mae’r ffydd cyflenwi ar gyfer cynllun llifogydd gorllewin y Rhyl yn dda gyda’r cyllid, yr amser, a’r ansawdd ar y trywydd cywir. Mae un gofid a nodwyd gyda’r buddion a gynlluniwyd yn berthnasol i’r graddau y mae’r cynllun yn amddiffyn. Bydd risg llifogydd yn gostwng i’r nifer o adeiladau a gynlluniwyd; fodd bynnag, bydd lefel yr amddiffyn yn amrywio yn ôl maint y digwyddiad llifogydd.

# Pennod 6: Cofrestr Prosiectau Corfforaethol

> **Sail Resymegol:** Mae'r Gofrestr Prosiectau yn darparu cofnod o'r holl brosiectau canolig a mawr sy'n cael eu cynnal gan y cyngor, a rhai o'r prosiectau bach yr ystyrir eu bod yn ddigon pwysig neu y mae angen lefel o weledolrwydd corfforaethol arnynt. Mae'n cynnwys prosiectau sy'n cael eu datblygu a'u cyflenwi yn rhan o'n gwaith trawsnewid busnes yn ogystal â'n prosiectau cyfalaf. Mae'r gofrestr prosiectau corfforaethol yn cofnodi'r holl brosiectau allweddol a gyflenwir gan y cyngor. Mae'r gofrestr yn crynhoi statws a ffydd cyflenwi'r prosiectau hynny.

Mae'r bennod hon yn enwi'r prosiectau allweddol yn y gofrestr sy'n dangos ffydd cyflenwi Coch neu Goch/Ambr, ac mae'n egluro'r ffactorau allweddol sy'n gwarantu sgôr ffydd isel. Mae Adroddiad Statws y Gofrestr Prosiectau, a ddiweddarwyd ar 7 Mehefin 2012, yn nodi un prosiect ar y Gofrestr Prosiectau Corfforaethol gyda ffydd cyflenwi Coch/Ambr. Mae'r Gofrestr Prosiectau llawn ar gael ar y fewnrwyd, ac mae'n cael ei chynnwys ar y dudalen ganlynol.

- **Prosiect AD Trent:** Mae'n debyg bod problem gyda'r e-byst llif gwaith a gynhyrchir gan iTrent (gan arwain at benderfyniad i ddiffodd e-byst awtomatig i staff a rheolwyr) wedi'i datrys erbyn hyn ar ôl mis o brofion rhwng yr adrannau AD a Chyflogres. Fodd bynnag, ni fydd y llifoedd gwaith yn cael eu rhoi ymlaen eto nes ein bod yn gwbl sicr na fydd y system yn ailadrodd y broblem. Mae'r ffydd cyflenwi **Coch/Ambr** yn adlewyrchu'r pryderon a achoswyd gan y mater hwn. Yn fwy cadarnhaol, mae'r profion terfynol wedi dechrau bellach i baratoi ar gyfer gweithredu Recriwtio ar y We, a chyn hir byddwn mewn sefyllfa i gwblhau'r broses weithredu.

# Pennod 7: Cytundebau Canlyniad

> **Sail resymegol:** Mae'r cyngor, fel pob cyngor yng Nghymru, wedi datblygu set o ddeg cytundeb canlyniad gyda Llywodraeth Cymru. Mae'r cytundebau canlyniad yn nodi'r ffordd y byddwn yn gweithio tuag at wella canlyniadau i bobl ifanc yng nghyd-destun blaenoriaethau cenedlaethol Llywodraeth Cymru. Yn ôl eu natur, mae'r rhan fwyaf o ganlyniadau sy'n canolbwyntio ar y dinesydd yn ei gwneud yn ofynnol cynnwys mwy nag un sefydliad er mwyn eu cyflenwi'n llwyddiannus. O ganlyniad, rhaid bod elfen gref o gydweithio'n perthyn i gytundebau canlyniad, yn ogystal â thystiolaeth o waith partneriaeth er mwyn cael yr effaith fwyaf.

| Ffydd Cyflenwi | Sgôr a Ddisgwylir |
|---|---|
| 31 Mawrth 2012 | 27 ALLAN O 30 |

Awgryma'r crynodeb hunanasesu y gellid colli 3 phwynt oherwydd targedau a gollwyd. Er gwaethaf y golled hon, mae'r cyngor mewn sefyllfa gref i fodloni'r gofyniad ar gyfer dyrannu grant llawn yn 2011/12, oherwydd bydd unrhyw sgôr rhwng 25 a 30 yn arwain at dalu'r grant yn llawn.

| Cytundeb Canlyniad 1 | Statws wedi'i Ddiweddaru | Ffydd Cyflenwi | Sgôr a Ddisgwylir |
|---|---|---|---|
| Bydd pobl ifanc rhwng 9 ac 16 oed a nodwyd yn y wardiau mwyaf amddifadus yn Sir Ddinbych yn ffynnu | 31 Mawrth 2012 | GWYRDD | 3 |
| **Cytundeb Canlyniad 2** | **Statws wedi'i Ddiweddaru** | **Ffydd Cyflenwi** | **Sgôr a Ddisgwylir** |
| Bod gan bobl ddewis yn lle gofal preswyl a gallant fyw'n annibynnol yn y gymuned. | 31 Mawrth 2012 | GWYRDD | 3 |
| **Cytundeb Canlyniad 3** | **Statws wedi'i Ddiweddaru** | **Ffydd Cyflenwi** | **Sgôr a Ddisgwylir** |
| Bydd preswylwyr Sir Ddinbych yn cael eu codi uwchlaw llinellau tlodi incwm canolrif 60% y DU a LIC (ar ôl costau tai) a bydd eu hansawdd bywyd ariannol yn gwella | 31 Mawrth 2012 | GWYRDD | 3 |
| **Cytundeb Canlyniad 4** | **Statws wedi'i Ddiweddaru** | **Ffydd Cyflenwi** | **Sgôr a Ddisgwylir** |
| Bod gwasanaethau i blant anabl a'u teuluoedd yn ddi-dor ac wedi'u cydgysylltu'n dda | 31 Mawrth 2012 | AMBR | 2 |

| Cytundeb Canlyniad 5 | Statws wedi'i Ddiweddaru | Ffydd Cyflenwi | Sgôr a Ddisgwylir |
|---|---|---|---|
| Bod plant a phobl ifanc yn Sir Ddinbych yn cael yr addysg a'r sgiliau i'w galluogi i gyflawni hyd eithaf eu gallu | 31 Mawrth 2012 | AMBR/GWYRDD | 2 |
| **Cytundeb Canlyniad 6** | **Statws wedi'i Ddiweddaru** | **Ffydd Cyflenwi** | **Sgôr a Ddisgwylir** |
| Bod ymddygiad gwrthgymdeithasol a throseddau cysylltiedig ag alcohol wedi'u lleihau | 31 Mawrth 2012 | AMBR/GWYRDD | 2 |
| **Cytundeb Canlyniad 7** | **Statws wedi'i Ddiweddaru** | **Ffydd Cyflenwi** | **Sgôr a Ddisgwylir** |
| Bod Sir Ddinbych yn rheoli gwastraff yn gynaliadwy | 31 Mawrth 2012 | GWYRDD | 3 |
| **Cytundeb Canlyniad 8** | **Statws wedi'i Ddiweddaru** | **Ffydd Cyflenwi** | **Sgôr a Ddisgwylir** |
| Bydd risg llifogydd arfordirol yng ngorllewin y Rhyl yn llai a bydd cymunedau'n ymwybodol o risgiau llifogydd a bydd cymunedau wedi datblygu i fod yn gadarnach | 31 Mawrth 2012 | GWYRDD | 3 |
| **Cytundeb Canlyniad 9** | **Statws wedi'i Ddiweddaru** | **Ffydd Cyflenwi** | **Sgôr a Ddisgwylir** |
| Bydd mwy o blant a phobl ifanc yn cyfranogi'n weithgar mewn gweithgareddau chwaraeon | 31 Mawrth 2012 | GWYRDD | 3 |
| **Cytundeb Canlyniad 10** | **Statws wedi'i Ddiweddaru** | **Ffydd Cyflenwi** | **Sgôr a Ddisgwylir** |
| Bod arbedion effeithlonrwydd yn cael eu sylweddoli drwy well contractio a bod cost y broses gaffael wedi'i lleihau | 31 Mawrth 2012 | GWYRDD | 3 |

# Pennod 8: Diogelu

**Sail resymegol:** Mae'r ffocws gan y canlyniad diogelu i sicrhau bod plant ac oedolion agored i niwed yn aros yn ddiogel ac wedi'u gwarchod rhag niwed. Mae Gwasanaethau Plant a Theuluoedd a Gwasanaethau Busnes ac Oedolion yn cyfrannu at y canlyniad hwn. Mae'r dewis o ddangosyddion allweddol a mesurau perfformiad y cyfeirir atynt yma yn rhoi sylw penodol i sicrhau perfformiad boddhaol, y mae'r gwasanaeth yn ei fonitro.

| Statws wedi'i Ddiweddaru | Gwerthusiad Cyffredinol |
|---|---|
| 31 Mawrth 2012 | Oren |

Yn seiliedig ar gynnydd a gyflawnwyd ers y flwyddyn ddechreuol, gall y cyngor arddangos perfformiad derbyniol. Mae nifer o fesurau o hyd sydd ymhell islaw'r targed, ac amlygir y rhain isod.

| DANGOSYDDION (Teitl Byr) | Man Cychwyn 2010/11 | Data 2011/12 | Targed 2011/12 | Perfformiad |
|---|---|---|---|---|
| Absenoldeb oherwydd Salwch yn y Gwasanaethau Plant ac Oedolion | 15.4 | 17.0 | 10.9 | Coch |
| % o atgyfeiriadau amddiffyn oedolion wedi'u cwblhau gyda'r risg wedi'i reoli | 92.7 | 87.4 | 95.0 | Coch |

| MESURAU PERFFORMIAD (Teitl Byr) | Man Cychwyn 2010/11 | Data 2011/12 | Targed 2011/12 | Perfformiad |
|---|---|---|---|---|
| % o atgyfeiriadau a oedd yn ail-atgyfeiriadau | 38.8 | 19.6 | 30.0 | Gwyrdd |
| % o Gynadleddau Amddiffyn Plant a gynhaliwyd (amseroldeb) | 73.2 | 98.1 | 95.0 | Gwyrdd |
| % o gyfarfodydd Grŵp Craidd a gynhaliwyd (amseroldeb) | 86.2 | 89.1 | 85.0 | Gwyrdd |
| % o Adolygiadau Amddiffyn Plant (statudol) (amseroldeb) | 100 | 100 | 100 | Gwyrdd |
| % o adolygiadau cynllun Plentyn mewn Angen (statudol) (amseroldeb) | 50.9 | 55.2 | 78.5 | Coch |
| % o ymweliadau (statudol) â Phlant sy'n Derbyn Gofal o fewn rheoliadau | 72.9 | 83.7 | 90.0 | Coch |
| % o Asesiadau Craidd a gwblhawyd (<35 diwrnod) | 74.6 | 72.7 | 75.0 | Melyn |
| Amser cyfartalog Asesiadau Craidd (dros 35 diwrnod) | 84.6 | 67.4 | amh. | amh. |

- Yn 2011/12, cynyddodd yr absenoldeb oherwydd salwch yn y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd. Mae gan y gwasanaeth lefelau cymharol uchel o absenoldeb oherwydd salwch o'i gymharu â gwasanaethau eraill yn y cyngor.

- Mae dau fesur perfformiad gwasanaeth ychwanegol, a amlygwyd mewn adroddiad rheoleiddio diweddar, islaw'r targed ac islaw canolrif Cymru a ragamcanwyd.

- Y ganran o adolygiadau o gynlluniau plentyn mewn angen a gynhaliwyd yn unol â'r amserlen statudol. Er bod y perfformiad wedi gwella, rydym yn dal ymhell islaw canolrif

Cymru 2010/11. Dywed y gwasanaeth y bydd grŵp gorchwyl a gorffen yn cael ei gasglu yn y ddeufis nesaf i ddatrys materion arfer, proses a chofnodi.

- Y ganran o ymweliadau statudol â phlant sy'n derbyn gofal a oedd i fod i ddigwydd yn ystod y flwyddyn a ddigwyddodd yn unol â'r rheoliadau. Mae gwelliannau perfformiad yn symud y cyngor yn agosach at ganolrif Cymru a ragamcanwyd. Mae gofyn gwelliant parhaus er mwyn croesi'r trothwy.

- Mae'r gwasanaeth yn dal yn monitro'r mesurau hyn, ac yn llunio adroddiadau amdanynt, drwy'r Cynllun Gwasanaeth ac mae'n cadw cynlluniau i wella perfformiad.

- Mae Pwyllgor Amddiffyn Oedolion Sir Ddinbych yn cyfarfod bob chwarter i ddatblygu, monitro, a gwerthuso gweithdrefnau amddiffyn oedolion ac i hyrwyddo cydweithio rhwng asiantaethau partner. Mae Fforwm Amddiffyn Oedolion Gogledd Cymru hefyd yn cyfarfod bob chwarter.

**Adroddiad ar gyfer:** **Y CABINET**

**Dyddiad y Cyfarfod:** **Mehefin 19eg 2012**

**Aelod Arweiniol y Cabinet:** **Y Cynghorydd Julian Thompson-Hill**

**Swyddog Arweiniol:** **Paul McGrady, Pennaeth Cyllid ac Asedau**

**Teitl:** **Y Sefyllfa Refeniw Derfynol 2011/12**

**1 Beth mae'r adroddiad yn ymwneud ag o?**

Mae'r Cabinet wedi derbyn adroddiadau monitro rheolaidd gydol y flwyddyn ariannol ar berfformiad gwariant yn erbyn cyllideb a chynilion a gytunwyd yn rhan o'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig. Mae'r adroddiad hwn yn nodi'r sefyllfa derfynol ar ddiwedd y flwyddyn ariannol. Bydd y Cyngor Sir yn derbyn y ffigurau ar Orffennaf 10fed ynghyd â'r driniaeth a gymeradwyir o gronfeydd. Fe gyflwynir drafft cyntaf y Datganiad Cyfrifon Blynyddol ar gyfer 2011/12 i'r archwilwyr allanol ar Fehefin 30ain. Yna fe gyflwynir y cyfrifon archwiliedig i'r Pwyllgor Archwilio ym mis Medi i'w cymeradwyo'n ffurfiol.

**2 Beth yw'r rheswm am wneud yr adroddiad yma?**

Yn ôl cyfansoddiad y Cyngor mae'n ofynnol i'r Cyngor llawn gymeradwyo sefydlu a defnyddio cronfeydd ariannol wrth gefn a chyfrannu iddyn nhw.

**3 Beth yw'r Argymhellion?**

I ystyried sefyllfa derfynol refeniw alldro ar gyfer 2011/12 a chymeradwyo'r sefyllfa i'r Cyngor llawn.

I gymeradwyo triniaeth cronfeydd a gweddillion i'r Cyngor fel y'u nodir yn yr adroddiad.

**4 Manylion yr adroddiad**

Sefyllfa'r canlyniad ariannol cyffredinol ar gyfer 2011/12 ydi tanwariant yn erbyn y gyllideb a gytunwyd sydd, ynghyd â chynnydd yn yr arenillion o'r Dreth Cyngor, yn cryfhau safle ariannol y Cyngor. O ganlyniad mae'n bosib gwneud argymhellion i drosglwyddo cronfeydd i gronfeydd penodol a fydd yn parhau i gynorthwyo'r Cyngor i ddelio â phwysau ariannol difrifol y blynyddoedd nesaf a helpu i adeiladu capasiti i gyflenwi buddsoddiad mewn ysgolion yn y dyfodol.

Mae ffigurau'r Canlyniad Refeniw terfynol wedi eu nodi yn Atodiad 1. Y sefyllfa derfyno ar gyllidebau gwasanaeth a chyllidebau corfforaethol oedd tanwariant o oddeutu £1.6m. Roedd gwariant ar ysgolion £223k yn is na'r gyllideb ddirprwyedig.

Roedd y sefyllfa alldro ar gyfer cyllidebau gwasanaethau a chorfforaethol yn £603k yn uwch na'r hyn a adroddwyd yn flaenorol i'r Cabinet ym mis Mawrth. Y symudiadau mwyaf arwyddocaol ydi o fewn Gwella Ysgolion a Chynhwysiant lle'r oedd dyfarniad hwyr gwariant cymwys o fewn nifer o gynlluniau grant yn golygu y gellid hawlio ac ariannu'r gwariant a gafwyd yn ystod y flwyddyn yn erbyn grantiau. Yn ogystal, cafwyd gostyngiad mewn costau lleoliadau arbenigol tua diwedd y flwyddyn. Roedd effaith y ddau fater yma oddeutu £300k.

Tua diwedd y flwyddyn ariannol cafwyd gwelliant sylweddol yn sefyllfa'r ysgolion sydd mewn anhawster ariannol ac mae hynny wedi cyfrannu tuag at sefyllfa gyffredinol well i ysgolion. Mae hyn ag effaith uniongyrchol ar y symudiad canol blwyddyn ar weddillion ysgolion. Roedd yna danwariant ar wariant o gyllidebau dirprwyedig ysgolion o £223k ac felly mae gweddillion ysgolion wedi cynyddu o'r un swm. Dangosir manylion gweddillion ysgolion unigol yn atodiad 3. Mae cyfanswm gweddillion ysgolion yn awr yn £1.808m.

Mae gwasanaethau'n parhau i fod yn rhagweithiol gyda chynllunio ar gyfer arbedion yn y blynyddoedd i ddod, ac fe ddechreuodd effaith ariannol rhai o'r cynigion hynny tua diwedd 2011/12. Fe gyllidebodd y cyngor i gyfrannu tuag at weddillion o £300k sydd, yn unol ag adroddiadau blaenorol, wedi ei dybio yn y safle alldro terfynol.

Mae gwybodaeth bellach ynglŷn ag alldro gwasanaethau fel a ganlyn:

**Cynllunio Busnes a Pherfformiad** – mae mwyafrif y tanwario'n ymwneud â'r gyllideb sy'n cefnogi'r grant Cymorth. Mae gan y cyngor gyllideb graidd sy'n cefnogi'r cyllid grant sydd wedi dechrau dirwyn i ben a chael ei ddisodli gan grant Teuluoedd yn Gyntaf. Roedd cyllideb y Tîm Rheoli Prosiect wedi ei thanwario hefyd o ganlyniad i ailgodi mwy o dâl nag a gynlluniwyd ar brosiectau.

Mae'r tanwariant yn y **Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd** wedi codi oherwydd bod yr arbedion a gynlluniwyd ar gyfer 2012/13 wedi eu cyflenwi'n gynnar.

**Cyllid ac Asedau** - mae'r tanwariant yn cynnwys £6k mewn Cyfrifyddiaeth, £4k mewn Refeniw a Budd-daliadau a £26k mewn Archwilio. Mae'r swm olaf wedi ei glustnodi i ariannu costau sy'n gysylltiedig â cholled botensial cytundebau allanol yn 2012/13. Roedd yna danwariant yn y gyllideb Eiddo o £105k a hynny'n adlewyrchu costau is drwy gydol y flwyddyn ac incwm ychwanegol a gynhyrchwyd drwy godi ffioedd ar brosiectau. Roedd y gyllideb Eiddo'n cynnwys y gyllideb cynnal a thrwsio annatganoledig â thanwariant o £38k.

**Priffyrdd a Seilwaith** - wedi cyflawni tanwariant o £261k, sy'n unol ag amcanestyniadau dros chwarter olaf y flwyddyn. Roedd y sefyllfa'n cynnwys gorwariant ar gyllidebau cynnal priffyrdd (£202k) ond tanwariant ar gyllidebau prosiectau mawr (£144k), rheoli rhwydwaith (£55k) a rheoli fflyd (£55k). Mae

cynigion i ddefnyddio'r gweddill a ddygwyd ymlaen yn cynnwys cyllid refeniw ar gyfer prosiect Harbwr y Foryd, newid mecanweithiau darnau arian ar beiriannau tocynnau parcio (i gymryd darnau arian newydd 5c a 10c) a chostau ariannu sy'n ymwneud â digwyddiad y Fflam Olympaidd.

**Gwasanaethau Cynllunio, Adfywio a Rheoleiddio**– mae'r rhan fwyaf o'r tanwariant a adroddwyd (£100k) yn ymwneud â dyraniad cyllideb 2011/12 ar gyfer Cynlluniau Trefol/cynlluniau Yn Nes at y Cymunedau ac fe gytunwyd y byddan nhw'n cael eu treiglo ymlaen i 2012/13.

**Gwasanaethau Oedolion** - er bod yr alldro'n fantoledig, bydd y grant Cefnogi Pobl yn cael ei dorri o 4% yn 2012/13 a 2013/14 a 5% am bob un o'r tair blynedd ddilynol. Ni chafodd grantiau 2011/12 eu gwario wrth ddisgwyl am y toriadau hyn ac mae'r grant dros ben wedi ei drosglwyddo i gronfa wrth gefn cefnogi pobl (£713k) yn rhan o'r strategaeth a gytunwyd drwy'r broses sialens gwasanaeth i ariannu pwysau yn y dyfodol o fewn gofal cymdeithasol oedolion - yn cynnwys effaith taliadau capio ar gyfer gofal dydd, cynnydd yn ffioedd gofal preswyl a chynnydd cyffredinol yn y galw am wasanaethau.

Mae'r gorwariant bychan yn y gwasanaeth **Hamdden, Llyfrgelloedd a Datblygu Cymunedau'n** cynnwys gorwariant ar gyllideb Theatr y Pafiliwn (£91k) er bod camau wedi eu cymryd i sicrhau unioni hyn yn 2012/13. Fe etifeddodd y gwasanaeth orwariant o £86k ar gyllideb Pafiliwn Llangollen yn 2010/11 ac eleni fe gyflawnwyd tanwariant o £21k.

Mae'r tanwariant yn **Adnoddau Dynol Strategol** yn ganlyniad i leoedd gwag mewn Iechyd a Diogelwch a llai o wariant ar gyllidebau hyfforddi.

Mae'r tanwariant yn y **Gwasanaethau Cwsmeriaid** yn cynnwys arbedion ar nifer o swyddi gwag o fewn y cyllidebau Technoleg Gwybodaeth a Gofal Cwsmeriaid.

Mae'r tanwariant yn **Amgylchedd** yn cynnwys elfennau o gyflawni arbedion 2012/13 cyn pryd. Hefyd, fe gyfrannodd newidiadau i reoliadau gweithlu asiantaeth yn ystod y flwyddyn i'r arbediad.

Mae'r tanwariant ar gyllidebau **Corfforaethol** wedi cynyddu o £100k o'r ffigwr a adroddwyd yn flaenorol ac mae'n awr yn £306k. Y rheswm am y tanwariant ydi bod gwariant ar ôl-wariant pensiynau, taliadau banc, ffioedd hapddigwyddiadau ac archwilio, yn is na'r disgwyl. Mae llinell y gyllideb gorfforaethol yn cynnwys y cyfraniad wedi'i gyllidebu i gronfeydd wrth gefn o £300k.

Fe effeithir ar y sefyllfa ar yr arenillion o **Dreth Cyngor** gan gynnydd yn nifer yr aneddiadau yn y Sir, ynghyd â lefel uchel iawn o gasglu treth (98% sy'n debygol o fod yr uchaf yng Nghymru). Roedd rhagdybiaethau pan osodwyd y cyllidebau wedi ystyried gostyngiad tebygol mewn cyfraddau casglu o ganlyniad i'r darlun economaidd anodd parhaus yn gyffredinol ond fe ddaliodd y cyngor yn llwyddiannus i gynnal graddfa gasglu uchel, sy'n gyflawniad sylweddol.

Fe adeiladwyd rhagdybiaeth o nifer yr eiddo newydd i mewn i gyfrifiad Sylfaen y Dreth Cyngor a'i defnyddio ar adeg Gosod Cyllideb i gyfrifo lefel y Dreth Cyngor sy'n drethadwy ym Mand D. Fe ddefnyddiwyd yr un rhagdybiaeth yma gan Lywodraeth Cymru i gyfrifo lefel ariannu'r llywodraeth drwy Grant Cynnal Refeniw am y flwyddyn. Roedd dull gweithredu darbodus yn angenrheidiol gan y byddai sylfaen treth fyddai wedi ei gorbwysleisio wedi golygu llai o gyllid gan y llywodraeth.

Fel yr adroddwyd gydol y flwyddyn, tybiwyd y byddai lefel derfynol arenillion Treth Cyngor yn debygol o fod dros yr amcangyfrifon gwreiddiol a ddefnyddiwyd wrth osod y gyllideb. Yr arenillion terfynol ydi £351k (0.9%) yn uwch na'r amcangyfrif gwreiddiol ac felly mae gan y Cyngor fantais unigryw.

O ystyried y sefyllfa gyffredinol o fewn gwasanaethau, cynigir yn y cam yma fod adrannau'n dwyn ymlaen unrhyw danwariant net yn llawn i helpu i gyflenwi strategaeth cyllideb 2012/13. Bydd yn ofynnol i wasanaethau amlinellu'n fanylach sut y bydd y gweddillion a ddygwyd ymlaen yn cael eu defnyddio yn 2012/13 yn yr Adroddiad Cyllid i'r Cabinet ym mis Gorffennaf.

Mae'r sefyllfa derfynol yn golygu fod gan y Cyngor gyllid ariannol unigryw o £600k ar gael. Mae hyn yn gyflawniad sylweddol ac mae'n rhaid i'r cyngor ofalu y caiff y cyllid ei ddefnyddio yn y ffordd fwyaf effeithiol. Cynigir ei ddefnyddio i adeiladu cronfeydd wrth gefn i gyfrannu tuag at raglen cyfalaf Moderneiddio Addysg/Ysgolion yr Unfed Ganrif ar Hugain.

Fe wnaethpwyd lwfans am nifer o gyfraniadau eraill i'r Cronfeydd wrth Gefn ac ohonyn nhw ac fe wnaethpwyd lwfans am Ddarpariaethau o fewn y cyfrifon. Mae'r rhain wedi eu nodi yn Atodiad 2 a bydd angen cymeradwyaeth iddyn nhw gan y Cyngor llawn. Mae symudiadau mawr i gronfeydd wrth gefn nad ydyn nhw wedi eu hamlygu eisoes yn cynnwys:

- Cyfraniad o£379k i gronfeydd wrth gefn PFI. Mae'r gronfa yma wedi ei hadeiladu ym mlynyddoedd cynnar cynllun PFI ac yna ei rhyddhau mewn blynyddoedd diweddarach i gyfarfod â chostau'r dyfodol.
- Cyfraniad o £703k i gronfa'r Statws Sengl. Mae'r gronfa yma wedi ei hadeiladu i ofalu am gostau parhaus y cynllun gwerthuso swyddi ac fe'i hadolygir yn ystod y flwyddyn.
- Cyfraniad o £1,700k i gronfa wrth gefn Rheoli Gwastraff Cynaliadwy. Cyllid grant ydi hwn sy'n rhaid ei ddefnyddio ar brosiectau gwastraff penodedig fydd yn cael eu cyflenwi yn y dyfodol.

**5 Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu tuag at y Blaenoriaethau Corfforaethol?**

Mae rheolaeth effeithiol cyllidebau refeniw a chyfalaf y cyngor a chyflenwad strategaeth y gyllideb a gytunwyd yn tanategu gweithgaredd ym mhob maes, yn cynnwys blaenoriaethau corfforaethol.

**6 Faint fydd o'n ei gostio a sut fydd o'n effeithio ar wasanaethau eraill?**

Cyllideb refeniw net y cyngor ar gyfer 2011/12 oedd £175m. Y safle terfynol heb gynnwys ysgolion oedd tanwariant net o £1.9m (1.7%). Mae effaith y cyllid grant a gadarnhawyd yn hwyr yn y flwyddyn ariannol a'r cyfraniad a gyllidebwyd i gronfeydd wrth gefn wedi eu cynnwys yn y safle yma. Cynigir bod y gwasanaethau hynny a gyflawnodd danwariant yn cario'r balans net ymlaen i 2012/13. Fe adolygir y safle o fewn pob gwasanaeth a'r defnydd a fwriedir ar gyfer gweddillion yn gynnar yn 2012/13.

**7 Pa ymgynghoriadau a gafwyd?**

Mae'r gyllideb wedi ei hadrodd i'r Cabinet drwy gydol y flwyddyn. Mae Aelodau Arweiniol y Cabinet wedi ymgynghori'n barhaus â Phenaethiaid Gwasanaeth i gytuno ar gamau adferol angenrheidiol sy'n ofynnol i gyflenwi'r safle alldro.

**8 Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**

Mae'r cyngor wedi cyflenwi arbedion cyllidebau refeniw sylweddol o £6.4m yn 2011/12 ac mae hynny'n gryn gyflawniad. Mae gwasanaethau'n parhau i fod yn ddarbodus ac yn effeithiol gyda nodi arbedion wrth symud ymlaen, a chafodd rhai ohonyn nhw effaith yn 2011/12. Mae hyn ynghyd â phennu peth cyllid grant yn hwyr yn y flwyddyn a gwell arenillion treth cyngor, wedi cyflenwi perfformiad cyllideb cadarn.

Mae'r egwyddor o gynnal lefel addas o weddillion cyffredinol heb eu clustnodi ynghyd â chronfeydd penodedig wrth gefn a darpariaethau ar gyfer ymrwymiadau potensial neu fuddsoddiadau mewn cyfalaf, yn allweddol i helpu'r Cyngor i gyflenwi a gwella gwasanaethau yn ystod cyfnod o bwysau ariannol difrifol. Mae'n hanfodol parhau i gymhwyso rheolaeth gyllidebol dda a chynllunio ariannol i osgoi'r posibilrwydd o orwariant yn y flwyddyn gyfredol a blynyddoedd y dyfodol, yn enwedig yng ngoleuni setliadau cyllideb eithriadol dynn am y blynyddoedd nesaf.

Mae'r fantais ariannol i'r cyngor o gyfraddau casglu ardderchog o ran treth cyngor eleni ac mewn blynyddoedd blaenorol yn debygol o leihau o 2013/14 wrth i newidiadau i'r system budd-dal treth cyngor olygu y bydd mwy o gostau'n pasio o lywodraeth ganolog i'r cyngor ac mae cyfraddau casglu'n debygol o ddisgyn wrth i reolau cymhwysedd newid.

Mae Aelodau wedi gofyn o'r blaen am fanylion y sefyllfa ar weddillion ysgolion unigol ar ddiwedd y flwyddyn ariannol. Fe ddangosir y rhain yn Atodiad 3.

**9 Pa risgiau sydd yna ac a oes yna unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**

Mae'r safle economaidd cyffredinol a'r effaith ar wasanaethau'r cyngor yn y tymor canolig yn dal yn heriol ac felly mae'n ddoeth i'r cyngor barhau i gynnal

cronfeydd digonol wrth gefn i gyfarfod â’r sialensiau ariannol sydd o’n blaen ac i gyflenwi’r strategaeth cyllideb a gytunwyd.

## 10 Grym i wneud y Penderfyniad

Mae’n ofynnol i awdurdodau lleol dan Adran 151 Deddf Llywodraeth Leol 1972 wneud trefniadau ar gyfer gweinyddiad cywir eu materion ariannol.

**<u>Atodiad 1</u>**

Cynllunio Busnes a Pherfformiad
Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd
Cyllid ac Asedau
Cynnal a Chadw Eiddo (Trwsio a Chynnal heb ei Ddatganol
Priffyrdd a Seilwaith
Cynllunio, Adfywio a Gwarchod y Cyhoedd
Gwasanaethau Oedolion a Busnes
Gwasanaethau Plant a Theuluoedd
Gwasanaethau Tai
Hamdden, Llyfrgelloedd a Datblygu Cymunedol
Adnoddau Dynol Strategol
Gwasanaethau Cwsmeriaid
Yr Amgylchedd
Moderneiddio Addysg
Gwella Ysgolion a Chynhwysiant
**Cyfanswm Gwasanaethau**

**Ysgolion**

**Cyllidebau Corfforaethol**
Corfforaethol
Cyfraniad a Gyllidebwyd i'r Balansau
Cyllid Cyfalaf/Llogau Buddiannau
Ardollau
Cyfraniadau o'r Cronfeydd

**Cyfanswm Gwasanaethau a Chyllidebau Corfforaethol**

**CYLLID**
Cyllid Llywodraeth Cymru
Defnyddio Cronfeydd wrth gefn
Y Dreth Gyngor

**Cyfanswm Cyllid**

**Sefyllfa yn ystod y flwyddyn**

**<u>SEFYLLFA AR 31AIN MAWRTH 2011</u>**

**Balansau ysgolion wedi eu dwyn ymlaen**
**a'r sefyllfa yn ystod y flwyddyn**
**Sefyllfa Ysgolion ar 31ain Mawrth 2011**

**<u>Balansau wedi eu clustnodi</u>**
**Tanwariant Gwasanaethau:**
Cynllunio Busnes a Pherfformiad
Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd
Cyllid ac Asedau
Priffyrdd a Seilwaith
Cynllunio, Adfywio a Gwarchod y Cyhoedd
Adnoddau Dynol Strategol
Gwasanaethau Cwsmeriaid
Yr Amgylchedd
Moderneiddio Addysg
Gwella Ysgolion a Chynhwysiant

**Cynnig**

Cronfa wrth gefn Moderneiddio Ysgolion/Ysgolion 21ain Ga

**2011/1**

| Cyllideb £'000 | **Alldro Terfynol** Alldro £'000 | Amrywiant £'000 | Sefyllfa Ysgolion £'000 |
|---|---|---|---|
| 971 | 789 | -182 | |
| 1,548 | 1,520 | -28 | |
| 6,157 | 6,016 | -141 | |
| 0 | 0 | 0 | |
| 10,679 | 10,418 | -261 | |
| 3,819 | 3,677 | -142 | |
| 31,802 | 31,802 | 0 | |
| 8,799 | 8,800 | 1 | |
| 388 | 388 | 0 | |
| 5,981 | 5,986 | 5 | |
| 1,299 | 1,260 | -39 | |
| 2,981 | 2,874 | -107 | |
| 11,498 | 11,409 | -89 | |
| 1,337 | 1,298 | -39 | |
| 4,548 | 4,227 | -321 | |
| **91,807** | **90,464** | **-1,343** | |
| | | | |
| 60,369 | 60,146 | -223 | -223 |
| | | | |
| 5,716 | 5,411 | -306 | |
| 300 | 0 | -300 | |
| 12,104 | 12,104 | 0 | |
| 4,549 | 4,549 | 0 | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **174,845** | **172,674** | **-2,171** | |
| 136,538 | 136,538 | 0 | |
| 50 | 0 | 50 | |
| 38,557 | 38,908 | -351 | |
| **175,145** | **175,446** | **-301** | |
| **300** | **-2,772** | **-2,472** | **-223** |
| | | 1,578 | |
| | | 223 | |
| | | **1,801** | |
| | | 182 | |
| | | 28 | |
| | | 141 | |
| | | 261 | |
| | | 142 | |
| | | 39 | |
| | | 107 | |
| | | 89 | |
| | | 39 | |
| | | 321 | |

| | |
|---|---|
| | **1,349** |
| nrif | **600** |

2

| Tan- a Gorwariant I Falansau £'000 | Tan / Gorwariant Gwasanaeth £'000 |
|---|---|
| | -182 |
| | -28 |
| | -141 |
| | 0 |
| | -261 |
| | -142 |
| | 0 |
| 1 | 0 |
| | 0 |
| 5 | 0 |
| | -39 |
| | -107 |
| | -89 |
| | -39 |
| | -321 |
| **6** | **-1,349** |

| | |
|---|---|
| -306 | |
| -300 | |
| 0 | |
| 0 | |
| 0 | |

| | |
|---|---|
| **-606** | **-1,349** |
| 0 | |
| 50 | |
| -351 | |
| **-301** | |
| **-901** | **-1,349** |

**Atodiad 2**

| TROSGLWYDDIADAU I/O GRONFEYDD WRTH GEFN / | Balans 31ain Mawrth 20 £'000 | Trosglwyddiad (I mewn) / Allan £'000 | Balans @ ain Mawrth 2012 £'000 |
|---|---|---|---|
| Cynlluniau Cyfalaf | (865) | (391) | (1,256) |
| Cynllun Benthyciad Effeithlonrwydd Ynni | 0 | (14) | (14) |
| Gwasanaethau Amgylcheddol | (70) | (59) | (129) |
| Cronfa Ymddeol yn Gynnar - ysgolion | (716) | 0 | (716) |
| Gwasanaeth Ieuenctid | (61) | 0 | (61) |
| Canolfan Integredig Plant | (72) | (11) | (83) |
| Strategaeth Hamdden | (50) | (59) | (109) |
| Moderneiddio Addysg | (153) | (200) | (353) |
| Cronfa Yswiriant | (572) | 190 | (382) |
| Cronfa Wrth Gefn Digwyddiadau Mawrion | (200) | 12 | (188) |
| Gofynion Deddf Gwlad a Thref (Adran 106) | (1,846) | 492 | (1,354) |
| Grant MCP | (3,263) | (379) | (3,642) |
| Ariannu Cyfalaf (llog ad-dalu TAW) | (860) | 0 | (860) |
| Etholiadau | (55) | (25) | (80) |
| Cronfa Rheoli Risg | (129) | 42 | (87) |
| Datblygu Rhwydweithiau TG | (189) | 27 | (162) |
| Statws Sengl | (4,022) | (703) | (4,725) |
| Adfer Pensiynau | 0 | (89) | (89) |
| Cronfa Weddnewid Ranbarthol Gogledd Cymru | 0 | (63) | (63) |
| Cydweithredu ar Hyfforddiant | 0 | (47) | (47) |
| Datblygu Systemau TG (EDRMS) | (24) | 24 | 0 |
| Systemau Cyllid | 0 | (40) | (40) |
| Cronfa Gyfreithiol | 0 | (52) | (52) |
| Cronfa wrth gefn LABGI | (149) | 0 | (149) |
| Cyflawni Newid | (2,986) | 423 | (2,563) |
| Cronfa wrth gefn Aelodau Ardal | (300) | 101 | (199) |
| Prosiect Adfywio (ad-daliad TAW) | (166) | 2 | (164) |
| Cynnal a Chadw yn y Gaeaf | (402) | 0 | (402) |
| Prosiectau Priffyrdd Mawrion | (160) | 0 | (160) |
| Cronfa Cludiant | 0 | (101) | (101) |
| Cynlluniau Arwyddion | 0 | (75) | (75) |
| Cyllideb Gronnus CESI | (90) | 64 | (26) |
| Cronfa Wrth Gefn Llyn Marchan | (10) | 0 | (10) |
| Cefnogi Pobl | (2,940) | (714) | (3,654) |
| A 117 Deddf Iechyd Meddwl | (52) | 0 | (52) |
| Lleoliadau PSS Arbenigol | (890) | 0 | (890) |
| Ffioedd Cartrefi Gofal | 0 | (358) | (358) |
| Confa Mwynderau Gofal Cymdeithasol | 0 | (23) | (23) |
| Rheoli Gwastraff yn Gynaliadwy | (1,749) | (1,700) | (3,449) |
| Cyfarwyddiaeth yr Amgylchedd - cronfeydd wrth gefn | (166) | (20) | (186) |
| Costau Cynllun Datblygu Lleol yn y dyfodol | (305) | 42 | (263) |
| Dylunio a Datblygu | (25) | (95) | (120) |
| Gweinyddu Cyllid Allanol | (165) | 31 | (134) |
| Cyflawni Cynllunio ar gyfer Cymru | (230) | 2 | (228) |
| Grantiau Refeniw heb eu defnyddio | (467) | (70) | (537) |
| Balansau a ddelir gan ysgolion dan gynllun dirprwyo | (1,578) | (223) | (1,801) |
| **CYFANSWM** | **(25,977)** | **(4,059)** | **(30,036)** |

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

**30.05.12** **ATODIAD 3**

**BALANSAU YSGOLION CYNRADD AR 31.03.2012**

**0.5 = Nursery**

| CANOLFAN COSTAU | YSGOL | | BALANS AR 31.03.2011 | BALANS AR 31.03.2012 | SYMUDIAD YN Y FLWYDDYN | CYFANSWM NIFER DISGYBLION MEDI 2011 | BALANS FESUL DISGYBL |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 114 | YSGOL BETWS GWERFIL GOCH | | 6,567 | 12,587 | 6,020 | 33.00 | 381 |
| 116 | YSGOL Y FAENOL | | 23,489 | 32,145 | 8,657 | 111.50 | 288 |
| 117 | YSGOL BODFARI | | 12,525 | 16,977 | 4,452 | 34.50 | 492 |
| 136 | YSGOL CARROG | | 20,930 | 19,830 | (1,100) | 34.50 | 575 |
| 140 | YSGOL CEFN MEIRIADOG | | 25,941 | 34,920 | 8,979 | 63.50 | 550 |
| 146 | YSGOL CLOCAENOG | | 11,198 | 4,316 | (6,882) | 36.50 | 118 |
| 162 | YSGOL CAER DREWYN | | 34,156 | 36,796 | 2,640 | 81.00 | 454 |
| 163 | YSGOL CYFFYLLIOG | | 9,559 | 2,311 | (7,248) | 29.00 | 80 |
| 164 | YSGOL MAES HYFRYD | | 50,946 | 43,236 | (7,710) | 73.00 | 592 |
| 168 | YSGOL Y PARC BABANOD | | 73,278 | 60,620 | (12,658) | 171.50 | 353 |
| 169 | YSGOL FRONGOCH IAU | | 31,152 | 56,771 | 25,619 | 180.00 | 315 |
| 170 | YSGOL GWAENYNOG IAU | | 25,766 | (1,074) | (26,840) | 86.00 | (12) |
| 171 | YSGOL HEULFRE IAU | | (14,554) | 3,084 | 17,638 | 83.00 | 37 |
| 172 | YSGOL TWM O'R NANT | | 35,818 | 38,802 | 2,984 | 240.00 | 162 |
| 176 | YSGOL HIRADDUG | | 42,805 | 35,629 | (7,176) | 203.00 | 176 |
| 196 | YSGOL GELLIFOR | | 16,547 | 8,405 | (8,142) | 82.50 | 102 |
| 198 | YSGOL GLYNDYFRDWY | | 10,315 | 26,907 | 16,592 | 21.50 | 1,252 |
| 210 | YSGOL BRO ELWERN | | 10,268 | 3,954 | (6,314) | 32.50 | 122 |
| 219 | YSGOL HENLLAN | | 9,937 | 31,312 | 21,375 | 58.00 | 540 |
| 247 / 261 | YSGOL BRO FAMAU | | 2,828 | 2,622 | (206) | 86.00 | 30 |
| 249 | YSGOL REOLEDIG LLANBEDR | | 443 | (2,242) | (2,684) | 62.00 | (36) |
| 251 | YSGOL DYFFRYN IAL | | 717 | 219 | (499) | 43.50 | 5 |
| 252 | YSGOL GYNRADD LLANDRILLO | | 22,820 | 16,970 | (5,849) | 27.50 | 617 |
| 255 | YSGOL BRYN CLWYD | | (6,500) | (1,634) | 4,866 | 25.00 | (65) |
| 258 | YSGOL LLANFAIR D.C. | | 32,686 | 46,250 | 13,564 | 99.00 | 467 |
| 266 | YSGOL BRYN COLLEN | | 10,191 | (3,220) | (13,411) | 143.50 | (22) |
| 268 | YSGOL BRO CINMEIRCH | | 9,438 | 10,366 | 928 | 65.00 | 159 |
| 284 | YSGOL MELYD | | 23,026 | 33,134 | 10,108 | 140.50 | 236 |
| 325 | YSGOL PENTRECELYN | | 25,231 | 23,936 | (1,295) | 31.00 | 772 |
| 332 | YSGOL GYMUNEDOL BODNANT | | 37,949 | 46,538.36 | 8,590 | 495.50 | 94 |
| 333 | CLAWDD OFFA | | (24,375) | (31,821) | (7,446) | 217.00 | (147) |
| 336 | YSGOL PENMORFA | | 50,557 | 29,331 | (21,226) | 427.00 | 69 |
| 337 | YSGOL Y LLYS | | 56,173 | 75,917 | 19,744 | 279.50 | 272 |
| 338 | YSGOL PANTPASTYNOG | | 15,122 | 24,694 | 9,572 | 54.50 | 453 |
| 351 | YSGOL RHEWL | | 4,728 | (327) | (5,055) | 41.00 | (8) |
| 361 | YSGOL Y CASTELL | | (13,851) | (25,540) | (11,689) | 199.00 | (128) |
| 364 | YSGOL BRYN HEDYDD | | 59,285 | 41,728 | (17,557) | 436.00 | 96 |
| 365 | YSGOL GYNRADD EGLWYS CRIST | | 46,384 | 32,678 | (13,706) | 391.00 | 84 |
| 366 | YSGOL DEWI SANT | | 60,389 | 109,447 | 49,057 | 491.00 | 223 |
| 367 | YSGOL EMMANUEL | | 129,406 | 168,401 | 38,995 | 428.00 | 393 |
| 368 | YSGOL LLYWELYN | | 4,307 | 19,103 | 14,796 | 487.00 | 39 |
| 369 | YSGOL BABYDDOL MAIR | | 7,923 | (23,429) | (31,352) | 274.00 | (86) |
| 373 | YSGOL REOLEDIG BORTHYN | | 55,529 | 58,899 | 3,370 | 116.00 | 508 |
| 374 | YSGOL GYNRADD STRYD RHOS | | 60,669 | 127,055 | 66,386 | 180.50 | 704 |
| 375 | YSGOL PENBARRAS | | 15,986 | 37,892 | 21,906 | 234.50 | 162 |
| 390 | YSGOL BABANOD LLANELWY | | 13,863 | 25,564 | 11,701 | 98.50 | 260 |
| 392 | YSGOL ESGOB MORGAN | | 20,276 | 3,997 | (16,279) | 98.00 | 41 |
| 405 | YSGOL REOLEDIG TREFNANT | | 47,672 | 61,029 | 13,356 | 67.50 | 904 |
| 408 | YSGOL TREMEIRCHION | | 8,181 | 9,426 | 1,246 | 46.00 | 205 |
| 467 | YSGOL GYMRAEG Y GWERNANT | | 10,071 | 9,090 | (981) | 111.50 | 82 |
| 490 | SANTES FFRAID | | 0 | 15,002.30 | 15,002 | 141.00 | 106 |
| **CYFANSWM** | | | **1,223,766** | **1,408,602** | **184,836** | **7,692** | |
| | | | | | | **Average** | **183** |

| BALANSAU YSGOLION UWCHRADD | AR 31.03.2012 |
|---|---|

| CANOLFAN COSTAU | YSGOL | BALANS AR 31.03.2011 | BALANS AR 31.03.2012 | SYMUDIAD YN Y FLWYDDYN | CYFANSWM IFER DISGYBLIO MEDI 2011 | BALANS FESUL DISGYBL |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 513 | YSGOL UWCHRADD DINBYCH | 75,729 | (32,478) | (108,207) | 737 | (44) |
| 527 | YSGOL DINAS BRAN | 148,262 | 127,370 | (20,892) | 997 | 128 |
| 537 | YSGOL UWCHRADD PRESTATYN | 255,195 | 258,251 | 3,056 | 1,762 | 147 |
| 541 | YSGOL UWCHRADD Y RHYL | (102,031) | (255,325) | (153,294) | 806 | (317) |
| 543 | YSGOL UWCHRADD Y BENDIGAID EDWARD JONES | (113,244) | (168,740) | (55,497) | 485 | (348) |
| 549 | YSGOL BRYNHYFRYD | 151,826 | 79,653 | (72,173) | 1,246 | 64 |
| 553 | YSGOL GLAN CLWYD | 169,442 | 154,624 | (14,818) | 947 | 163 |
| 590 | SANTES FFRAID | 0 | (15,002) | (15,002) | 377 | (40) |
| CYFANSWM | | 585,180 | 148,354 | (436,825) | 6,980 | |
| | | | | | Cyfartaledd | 21 |

| BALANSAU YSGOLION ARBENNIG | AR 31.03.2012 |
|---|---|

| CANOLFAN COSTAU | YSGOL | BALANS AR 31.03.2011 | BALANS AR 31.03.2012 | SYMUDIAD YN Y FLWYDDYN | CYFANSWM IFER DISGYBLIO MEDI 2011 | BALANS FESUL DISGYBL |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 619 | YSGOL PLAS BRONDYFFRYN | (302,074) | 55,126 | 357,200 | 121.00 | 456 |
| 655 | YSGOL TIR MORFA | 70,745 | 188,980 | 118,235 | 133.00 | 1,421 |
| CYFANSWM | | (231,329) | 244,106 | 475,435 | 254 | |
| | | | | | Cyfartaledd | 961 |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **CYFANSWM HOLL YSGOLION** | | **1,577,616** | **1,801,062** | **223,446** | **14,926** | |
| **Balans ar gyfartaledd fesul disgybl - holl ysgolion** | | | | | | **121** |

**Yn Adrodd i:** **Y CABINET**

**Dyddiad y Cyfarfod:** **19 Mehefin 2012**

**Aelod Cabinet Arweiniol:** **Y Cynghorydd Julian Thompson-Hill**

**Swyddog Arweiniol:** **Paul McGrady, Pennaeth Cyllid ac Asedau**

**Teitl:** **Adroddiad Cyllid**

**1 Ynghylch beth mae'r adroddiad?**

Mae'r adroddiad yn cynnwys manylion cyllideb refeniw'r cyngor a manylion yr arbedion a gytunwyd ddiwedd Mai 2012 ar gyfer 2012 / 13. Mae'r adroddiad hefyd yn cynnwys crynodeb o ddiweddariad ar y Cynllun Cyfalaf, y Cyfrif Refeniw Tai a'r Cynllun Cyfalaf Tai.

**2 Beth yw'r rheswm dros wneud yr adroddiad hwn?**

Mae'r adroddiad yn hysbysu'r aelodau o ffurf y cyllidebau ac yn dangos y strwythur adrodd ar gyfer y flwyddyn i ddod. Ar hyn o bryd, nid oes unrhyw wyro o'r strategaeth gyllidebol a gytunwyd ar gyfer 2012 / 13 ac a ddiffiniwyd yn y Cynllun Ariannol Tymor Canolig, y Cynllun Cyfalaf a Chynllun Busnes y Stoc Tai.

**3 Beth yw'r Argymhellion?**

Fod aelodau'n cytuno ar y cyllidebau a'r targedau arbedion ariannol ar gyfer y flwyddyn a'r cynnydd yn erbyn y strategaeth gyllidebol a gytunwyd.

**4 Manylion yr Adroddiad**

Cyflwynir y rhagolwg diweddaraf ar y gyllideb refeniw yn **Atodiad 1**. Mae'n dangos fod y sefyllfa'n gytbwys ym mhob gwasanaeth gan gynnwys cyllidebau ysgolion a chyllidebau corfforaethol.

Mae Atodiad 1 hefyd yn cynnwys crynodeb o'r Cyfrif Refeniw Tai er gwybodaeth ond mae'r Cyfrif hwn yn gronfa ar wahân ac nid yw'n rhan o gyllideb refeniw'r cyngor.

Mae diweddariad yn **Atodiad 2** yr adroddiad hwn o'r cynnydd yn erbyn yr arbedion a'r pwysau a gafodd eu cytuno fel rhan o'r broses o osod cyllideb ar gyfer 2012 / 13. Cytunwyd ar gyfanswm o arbedion net o £3.443 miliwn, llwyddwyd i wireddu £0.428 miliwn (12%) ac mae £3.015 (88%) yn dal ar ôl ac yn cael eu hystyried ar y gweill. Er bod y rhan fwyaf o'r eitemau'n dal i gael eu hystyried 'ar y gweill', nid yw unrhyw un o'r arbedion a restrir yn cael ei ystyried yn amhosibl i'w gyrraedd. Bydd dadansoddiad mwy manwl o'r

cynnydd yn cael ei gyflwyno fis Gorffennaf a ddylai ddangos cynnydd mwy sylweddol.

**5 Sut y bydd y penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?**

Mae rheoli cyllidebau refeniw a chyfalaf y cyngor yn effeithiol a gwireddu'r strategaeth gyllidebol a gytunwyd yn sail i weithgaredd ym mhob maes, gan gynnwys blaenoriaethau corfforaethol.

**6 Beth fydd y gost a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**

Defnyddir y rhan hwn o'r adroddiad i amlygu unrhyw wahaniaethau yn y targedau cyllidebol neu yn y targedau arbedion ac yn y risgiau neu'r arbedion ychwanegol a allai godi yn ystod y flwyddyn ac i roi diweddariad manylach ar y Cynllun Cyfalaf a'r Cynllun Refeniw Tai. Mae'r sefyllfa ar yr adeg hon o'r flwyddyn yn rhagdybio na fu unrhyw wyro o'r cyllidebau a gytunwyd ond bydd y sefyllfa'n newid pan fydd gyfrifon 2011 / 12 yn cael eu gorffen a phan ddaw'r sefyllfa ynghylch y balansau sydd i'w cario ymlaen yn gliriach.

Dylid nodi y bu'n rhaid defnyddio'r tanwariant a ragwelwyd yn y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd at ddiwedd 2011 / 12 i ariannu gwariant cynllun 'Genesis' y dyfarnwyd nad oedd grant yn daladwy ar ei gyfer. Roedd hyn tua £140,000 ac wedi codi oherwydd nad oedd sefydliadau'r bartneriaeth a rhai adrannau o'r cyngor wedi cyflwyno digon o dystiolaeth a oedd yn golygu nad oedd yr hawliadau grant yn cyrraedd y safon ofynnol.

Mae'n siŵr y bydd amrywiaethau eraill yn ymddangos mewn gwahanol wasanaethau wrth i'r flwyddyn symud ymlaen.

**Y Cynllun Cyfalaf** – Disgwylir mai'r canlyniad fydd £34.2 miliwn. Mae **Atodiad 3** yn dangos crynodeb o'r cynllun presennol a sut y bydd yn cael ei ariannu. Bydd adroddiadau pellach yn cynnwys diweddariad ar y prif brosiectau cyfalaf yn cael eu cyflwyno wrth i'r Cynllun ddatblygu yn ystod y flwyddyn.

**Y Cyfrif Refeniw Tai** – mae'r rhagolygon diweddaraf yn dangos gweddill a gynlluniwyd o £71,000. Mae hyn yn cynnwys ariannu gwariant cyfalaf o £602,000 allan o refeniw fel rhan o'r Cynllun Busnes a gytunwyd ar gyfer y Stoc Tai yn 2012 / 13. Mae'r Cynllun Busnes yn dal yn hyfyw ac, yn ôl y rhagolygon diweddaraf, balans y Cyfrif Refeniw Tai a fydd yn cael ei gario ymlaen fydd £963,000.

Rhagwelir y bydd y Cynllun Cyfalaf Tai yn gwario £7.5 miliwn yn 2012 / 13 a fydd yn cael ei gyllido'n rhannol drwy fenthyca darbodus (£4.4 miliwn). Mae cyrraedd Safon Ansawdd Tai Cymru erbyn diwedd 2012 / 13 yn dal ar darged ac mae arolwg cyflwr manwl ar y stoc yn cael ei gynnal ar hyn o bryd. Bydd

yr arolwg o help i benderfynu ar fuddsoddiadau cyfalaf ac ar y rhagdybiaethau cynllunio busnes ar gyfer y dyfodol.

Dangosir crynodeb o sefyllfa ddiweddaraf y Cyfrif Refeniw Tai yn y tabl isod.

***Crynodeb y Cyfrif Refeniw Tai a'r Cynllun Cyfalaf Tai***

| Crynodeb o'r Cyfrif Refeniw Tai - 2012 / 13<br>Mai 2012 | |
|---|---|
| **Gwariant** | **£'000** |
| Rheoli a Chynnal tai | 5,414 |
| Costau Cyfalaf | 2,648 |
| Sybsidi | 3,148 |
| Darpariaeth ar gyfer Dyledion Drwg | 29 |
| Cyfraniad Refeniw at Gyfalaf | 602 |
| **Cyfanswm Gwariant** | **11,841** |
| **Incwm** | |
| Rhenti | 11,750 |
| Garejys | 157 |
| Llog | 5 |
| **Cyfanswm incwm** | **11,912** |
| **Gweddill am y Flwyddyn** | **71** |
| **Balans y Cyfrif Refeniw Tai a gariwyd ymlaen** | **963** |

| Cynllun Cyfalaf Tai<br>Mai 2012 | £,000 |
|---|---|
| Gwariant a Gynlluniwyd | 7,452 |
| **Ariannwyd gan:** | |
| Lwfans Atgyweirio Mawr | 2,400 |
| Cyfraniadau Refeniw | 602 |
| Derbyniadau Cyfalaf | 17 |
| Benthyca Darbodus | 4,433 |
| **Cyfanswm** | **7,452** |

## 7 Pa ymgynghori a wnaed?

Cafodd y gyllideb refeniw ei chymeradwyo gan y cabinet ac yn ffurfiol gan y cyngor ar ôl rownd helaeth o heriau gwasanaethau. Cafodd y cynllun cyfalaf ei gymeradwyo gan y cyngor ar ôl i'r Grŵp Buddsoddi Strategol ei archwilio ac i'r cabinet ei gymeradwyo. Cafodd y Cyfrif Refeniw Tai ei gymeradwyo ar ôl

ymgynghori gydag aelodau etholedig ac â chynrychiolwyr ffederasiwn y tenantiaid.

## 8 Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

Mae'r adroddiad yn amlygu'r cyllidebau refeniw a chyfalaf a gytunwyd ar gyfer 2012 / 13 ac yn dangos sut yr adroddir ar sefyllfa ariannol y cyngor wrth y Cabinet gydol y flwyddyn. Disgwylir i wasanaethau wireddu'r arbedion a gytunwyd mewn Heriau Gwasanaeth ac wrth osod cyllidebau ac, hyd yma, maen nhw wedi llwyddo i wneud hynny. Bydd yr adroddiad nesaf yn cynnwys gwybodaeth fwy dibynadwy ynghylch rhagolygon sefyllfa derfynol 2011 / 12 a chadarnhad o effaith hynny ar gyllidebau 2012 / 13. Mae'n bwysig fod gwasanaethau'n dal i reoli eu cyllidebau'n ddoeth a bod unrhyw weddillion yn ystod y flwyddyn yn cael eu hystyried yng nghyd-destun y sefyllfa ariannol tymor canolig.

### Sylwebaeth Economaidd a Diweddariad Rheolaeth y Trysorlys

Mae'r marchnadoedd ariannol yn dal yn hynod anwadal ac mae hyn yn cyfyngu ar nifer y sefydliadau y gall y cyngor fuddsoddi ynddyn nhw a hefyd ar hyd y cyfnod y gall y cyngor fuddsoddi. Mae'r ddau yn cyfyngu ar yr enillion y gall y cyngor eu cael. I roi hyn mewn cyd-destun, yn 2008 gallai'r cyngor ddisgwyl ennill tua £2.5 miliwn mewn llogau ar fuddsoddiadau (fel arfer mae gan y cyngor rhwng £20 - £30 miliwn i'w fuddsoddi). Eleni, mae'r enillion yn debyg o ostwng i £250,000, degfed ran o'r hyn y gellid ei ddisgwyl cyn i'r argyfwng ariannol gychwyn. Mae strategaeth trysorlys y cyngor yn gosod diogelwch buddsoddiadau o flaen enillion er yr ystyrir dewisiadau doeth bob amser os yn briodol. Y llynedd, dim ond mewn banciau ac am rhwng blwyddyn a chwe mis yr oedd y cyngor yn buddsoddi ac, erbyn diwedd y flwyddyn roedd y cyfnod wedi goswtng i 90 diwrnod. Yn fwy diweddar, gostyngwyd hyn ymhellach i 30 diwrnod ac, yn ystod y pythefnos diwethaf, mae'r cyngor wedi dewis cyfyngu bron iawn pob arian ar gadw i un diwrnod. Mae yna ddau sefydliad y gellir rhoi arian ynddyn nhw am hyd at un wythnos. Gyda pharth yr ewro mor anwadal, ac y gallai fod yn dymestl pe byddai un o'r banciau mawr yn methu neu pe byddai gwlad yn diffygdalu, bydd strategaeth fuddsoddi bresennol y cyngor yn debyg o barhau i'r tymor canolig.

Mae benthyciadau'r cyngor ar hyn o bryd yn £135 miliwn ar gyfartaledd cyfraddau o 5.74% a chyfanswm y buddsoddiadau yw £34.5 miliwn ar gyfartaledd graddfa o 0.94%.

## 9 Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

Dyma'r cyfnod ariannol mwyaf heriol y mae'r cyngor wedi'i wynebu a byddai methu â gwireddu'r strategaeth gyllidebol a gytunwyd yn gosod pwysau ychwanegol ar wasanaethau eleni ac yn y blynyddoedd i ddod. Bydd monitro

a rheoli cyllidebau'n effeithiol ac adrodd yn gynnar ar wahaniaethau yn helpu i sicrhau y gwireddir y strategaeth ariannol.

Daw risgiau penodol i'r amlwg wrth ymdrin â phrosiectau cyfalaf a gallai hynny gynnwys gwariant ar ymestyniadau amser, problemau cyllido ac ystyriaethau anariannol eraill. Bydd trefniadau cymeradwyo cadarn a monitro ac adrodd ariannol manwl, a hefyd weithdrefnau rheoli prosiect effeithiol, o help i leihau'r risgiau hynny.

Mae'r Cyfrif Refeniw Tai yn buddsoddi'n sylweddol i wella'r stoc tai ac yn defnyddio benthyciadau a grantiau i ariannu'r gwaith. Bydd yn rhaid i fenthyciadau fod yn fforddiadwy a bydd monitro rheolaidd ac asesu a chymeradwyo'n flynyddol hyfywdra Cynllun Busnes y Stoc Tai yn sicrhau y bydd hynny'n parhau.

## 10 Yr Hawl i Benderfynu

Mae gofyn i Awdurdodau Lleol wneud trefniadau o dan Adran 151 Deddf Llywodraeth Leol (1972) ar gyfer gweinyddu eu materion ariannol yn briodol.

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

Appendix 1

# DENBIGHSHIRE COUNTY COUNCIL REVENUE BUDGET MONITORING REPORT 2012/13

| Forecast as at 31/05/2012 | Budget Expenditure | Budget Income | Budget Net | Projected Outturn Expenditure | Projected Outturn Income | Projected Outturn Net | Variance Expenditure | Variance Income | Variance Net | Net | Variance Previous Report |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | % | £'000 |
| Business Planning & Performance | 1,178 | -224 | 954 | 1,178 | -224 | 954 | 0 | 0 | 0 | 0.00% | 0 |
| Legal & Democratic Services | 2,066 | -553 | 1,513 | 2,066 | -553 | 1,513 | 0 | 0 | 0 | 0.00% | 0 |
| Finance & Assets | 14,364 | -7,359 | 7,005 | 14,364 | -7,359 | 7,005 | 0 | 0 | 0 | 0.00% | 0 |
| Highways & Infrastructure | 20,069 | -9,624 | 10,445 | 20,069 | -9,624 | 10,445 | 0 | 0 | 0 | 0.00% | 0 |
| Planning, Regeneration & Public Protection | 5,727 | -1,949 | 3,778 | 5,727 | -1,949 | 3,778 | 0 | 0 | 0 | 0.00% | 0 |
| Adult & Business Services | 45,090 | -13,240 | 31,850 | 45,090 | -13,240 | 31,850 | 0 | 0 | 0 | 0.00% | 0 |
| Children & Family Services | 9,800 | -1,029 | 8,771 | 9,800 | -1,029 | 8,771 | 0 | 0 | 0 | 0.00% | 0 |
| Housing Services | 1,842 | -1,462 | 380 | 1,842 | -1,462 | 380 | 0 | 0 | 0 | 0.00% | 0 |
| Leisure, Libraries & Community Development | 9,899 | -4,608 | 5,291 | 9,899 | -4,608 | 5,291 | 0 | 0 | 0 | 0.00% | 0 |
| Strategic HR | 1,558 | -470 | 1,088 | 1,558 | -470 | 1,088 | 0 | 0 | 0 | 0.00% | 0 |
| Customer Services | 4,078 | -985 | 3,093 | 4,078 | -985 | 3,093 | 0 | 0 | 0 | 0.00% | 0 |
| Environment | 19,068 | -8,301 | 10,767 | 19,068 | -8,301 | 10,767 | 0 | 0 | 0 | 0.00% | 0 |
| Modernising Education | 1,476 | -321 | 1,155 | 1,476 | -321 | 1,155 | 0 | 0 | 0 | 0.00% | 0 |
| School Improvement & Inclusion | 10,782 | -7,756 | 3,026 | 10,782 | -7,756 | 3,026 | 0 | 0 | 0 | 0.00% | 0 |
| **Total Services** | **146,997** | **-57,881** | **89,116** | **146,997** | **-57,881** | **89,116** | **0** | **0** | **0** | 0.00% | **0** |
| Corporate | 44,873 | -36,670 | 8,203 | 44,873 | -36,670 | 8,203 | 0 | 0 | 0 | 0.00% | 0 |
| Precepts & Levies | 4,569 | 0 | 4,569 | 4,569 | 0 | 4,569 | 0 | 0 | 0 | 0.00% | 0 |
| Capital Financing | 12,656 | 0 | 12,656 | 12,656 | 0 | 12,656 | 0 | 0 | 0 | 0.00% | 0 |
| **Total Corporate** | **62,098** | **-36,670** | **25,428** | **62,098** | **-36,670** | **25,428** | **0** | **0** | **0** | 0.00% | **0** |
| **Council Services & Corporate Budget** | **209,095** | **-94,551** | **114,544** | **209,095** | **-94,551** | **114,544** | **0** | **0** | **0** | 0.00% | **0** |
| **Schools** | **70,597** | **-7,756** | **62,841** | **70,597** | **-7,756** | **62,841** | **0** | **0** | **0** | **0.00%** | **505** |
| **Total Council Budget** | **279,692** | **-102,307** | **177,385** | **279,692** | **-102,307** | **177,385** | **0** | **0** | **0** | 0.00% | **505** |
| **Housing Revenue Account** | **11,841** | **-11,912** | **-71** | **11,841** | **-11,912** | **-71** | **0** | **0** | **0** | 0.00% | **84** |

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

**Appendix 2 Medium Term Financial Plan Update 2012/13**
**Update to 31/05/2012**

| Ref | Action | Status | Saving £'000 | Total £'000 |
|---|---|---|---|---|
| **General** | | | | |
| A3 | Convert Essential Car Users to Casual | In progress | 200 | |
| A7 | Costs of Democracy | In progress | 20 | |
| | | | | **220** |
| **Support Services Review** | | | | |
| C1 | HR Review - Ongoing Impact of Centralisation | In progress | 45 | |
| C3 | Legal services - phase 1 | In progress | 70 | |
| C4 | Democratic support | Achieved | 28 | |
| C5 | ICT/IM Structure | In progress | 60 | |
| C6 | ICT/IM Procurement | In progress | 25 | |
| C7 | Finance & Assets | Achieved | 300 | |
| | | | | **528** |
| **Service Challenges** | | | | |
| **Leisure, Libraries & Community Development** | | | | |
| Da1 | Leisure Services-New Booking System | In progress | 30 | |
| Da2 | Back office co-located with Youth | In progress | 30 | |
| Da3 | Transfer Town Halls to Town Councils | In progress | 80 | |
| Da4 | Outsource a leisure centre | In progress | 0 | |
| Da5 | Remove subsidy by increasing income | In progress | 120 | |
| | | | | **260** |
| **Environmental Services** | | | | |
| Db1 | Increase charges for certain services eg bulky waste collection | In progress | 510 | |
| Db2 | Renegotiate recyclate and disposal contracts | In progress | 200 | |
| Db4 | Reduce number of CA sites | In progress | 134 | |
| Db7 | Other Reorg Savings | In progress | 20 | |
| Db9 | Fleet Efficiency | In progress | 138 | |
| Db12 | Public Conveniences | In progress | 10 | |
| Db14 | WAG Waste Target Pressures | In progress | -366 | |
| Db15 | Free School Meals Cost Pressures | In progress | -20 | |
| Db16 | Countryside staff reduction | In progress | 50 | |
| Db17 | Tourism Service Redesign | In progress | 49 | |
| Db18 | Regeneration Service Redesign | In progress | 46 | |
| | | | | **771** |
| **Planning and Public Protection** | | | | |
| Dc1 | Review of Regeneration | In progress | 10 | |
| EC21 | Review Pest Control | In progress | 20 | |
| EC23 | Review Building Control | In progress | 20 | |
| EC24 | Review of Planning Policy Service | In progress | 20 | |
| EC25 | Review of CCTV service | In progress | 30 | |
| EC27 | Review of Trading Standards | In progress | 50 | |
| EC28 | Licensing | In progress | 20 | |
| | | | | **170** |
| **Highways & Infrastructure** | | | | |
| EC12 | Passenger Transport | In Progress | 35 | |
| EC13 | Parking | In Progress | 70 | |
| EC15 | Development Control | In Progress | 18 | |
| | NWTRA Fees | Achieved | 100 | |
| EC16 | Winter Maintenance | In Progress | 65 | |
| | | | | **288** |
| **Adult Social Services** | | | | |
| Df1 | Cefndy Healthcare, | In Progress | 43 | |
| Df2 | Closer working of Fin assessments & Benefits | In Progress | 30 | |
| | **Other Adult Services** | | | |
| Df4 | Service Restructure | In Progress | 130 | |
| | **Older People** | | | |
| Df5 | Externalise elements of Home Care | In Progress | 15 | |
| Df6 | Day care - review and rationalise | In Progress | 30 | |
| Df7 | Review Meals on Wheels | In Progress | 64 | |
| Df8 | Impact of investment in reablement | In Progress | 75 | |
| Df9 | Residential Care - Impact of Extra Care | In Progress | 100 | |
| | **Mental Health** | | | |
| Df11 | Management Changes | In Progress | 19 | |
| Df12 | Partnership Efficiency Savings | In Progress | 26 | |

| Adult Social Services (con'd) | | Status | Saving £,000 | Total £'000 |
|---|---|---|---|---|
| | **Physical Disability & Impairment** | | | |
| Df13 | ISIL Scheme | In Progress | 18 | |
| Df14 | Reablement Intervention | In Progress | 26 | |
| Df15 | Telecare | In Progress | 20 | |
| | **Other Adult Services** | | | |
| Df16 | Administration Rationalisation | In Progress | 67 | |
| Df17 | Systems Thinking and Vacancy Control | In Progress | 40 | |
| | **Business Support & Development** | | | |
| Df18 | PMDF Grant - Loss of funded posts | In Progress | 152 | |
| Df19 | Workforce Development Review | In Progress | 20 | |
| | | | | **875** |
| **School Improvement & Inclusion** | | | | |
| Dh1 | Service Restructure | In Progress | 100 | **100** |
| **Children & Family Services** | | | | |
| | **Staffing** | | | |
| Dj3 | Other Staff Savings | In Progress | 21 | |
| | **Refocus on Core Business** | | | |
| Dj5 | Re-shaping Supervised Contact Service | In Progress | 43 | |
| Dj8 | Reduction in Independent (external) Placement Provision | In Progress | 48 | |
| | **Decommissioning Services** | | | |
| Dj11 | Voluntary Organisation Grants | In Progress | 37 | |
| | Child Trust Funds | In Progress | 2 | |
| Dj12 | Parenting Programme | In Progress | 82 | |
| Dj14 | Rhyl Adventure Playground | In Progress | 61 | |
| | **Pressures** | | | |
| Dj18 | In-house Fostering | In Progress | -224 | |
| Dj20 | Legislative | In Progress | -28 | |
| | | | | **42** |
| **Housing** | | | | |
| | Various Small savings | In Progress | 7 | **7** |
| **REGIONAL WORKING/COLLABORATION** | | | | |
| ENW1 | Education Regional Board | In Progress | 25 | |
| ENW2 | Social Care Regional Board | In Progress | 25 | |
| | | | | **50** |
| **OUTSOURCING** | | | | |
| G2 | Bodelwyddan Castle | In Progress | 18 | |
| G4 | ECTARC | In Progress | 10 | |
| | | | | **28** |
| **Other Cultural/Heritage activities** | | | | |
| H1 | Pavilion Theatre | In Progress | 50 | |
| H2 | Ruthin Craft Centre | In Progress | 20 | |
| H3 | Llangollen Pavilion | In Progress | 25 | |
| H4 | Heritage facilities | In Progress | 9 | |
| | | | | **104** |
| | **Total Savings 2012/13** | | | **3,443** |

| Summary: | | £'000 | % |
|---|---|---|---|
| Savings Achieved/Replaced or Pressures Confirmed | | **428** | **12** |
| Savings In Progress/Being Reviewed | | **3,015** | **88** |
| Savings Not Achieved/Deferred | | **0** | **0** |
| Total | | **3,443** | |

# Denbighshire County Council - Capital Plan 2012/13 - 2014/15

| | | | 2012/13 | 2013/14 | 2014/15 |
|---|---|---|---|---|---|
| | **Capital Funding:** | | **£000s** | **£000s** | **£000s** |
| 1 | **General Funding:** | **Unhypothecated Supported Borrowing** | 8,679 | 3,152 | 2,994 |
| | | **General Capital Grant** | 1,934 | 1,931 | 1,931 |
| | | **General Capital Receipts** | 1,063 | | |
| | | **Earmarked Capital Receipts** | 150 | 0 | 0 |
| | | | 11,826 | 5,083 | 4,925 |
| 2 | **Prudential Borrowing** | | 9,995 | 3 | 300 |
| 3 | **Reserves and Cera** | | 1,740 | 0 | 0 |
| 4 | **Specific Grants and Contributions** | | 10,153 | 4,076 | 848 |
| | | **Total Finance** | 33,714 | 9,162 | 6,073 |
| | | **Total Estimated Payments** | -32,213 | -4,079 | -1,148 |
| | | **Contingency** | -1,501 | -1,000 | -1,000 |
| | | **Earmarked Contingency** | | | |
| | | **Unallocated Reserve** | 0 | 0 | 0 |
| | | **Funding available** | 0 | 4,083 | 3,925 |

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

**CABINET: FORWARD WORK PROGRAMME**

| | |
|---|---|
| **JULY 2012** | |
| Regional CCTV | Cllr D Smith / Graham Boase |
| Regional Collaboration on Economic Development | Lead Member / Mark Dixon |
| Regional Collaborative Committees | Lead Member / Sally Ellis / Jenny Elliott |
| Regional Collaboration on Economic Regeneration<br>Purpose: Approval for the governance arrangements for priority collaborative activities | Lead Member / Mark Dixon |
| Mental Health Measure | Lead Member / Sally Ellis |
| Financial Update Report | Cllr J Thompson-Hill / Paul McGrady |
| Items from Scrutiny Committees | Scrutiny Coordinator |
| | |
| **SEPTEMBER 2012** | |
| Financial Update Report | Cllr J Thompson-Hill / Paul McGrady |
| Items from Scrutiny Committees | Scrutiny Coordinator |
| | |
| **OCTOBER 2012** | |
| Financial Update Report | Cllr J Thompson-Hill / Paul McGrady |
| Items from Scrutiny Committees | Scrutiny Coordinator |
| | |
| **NOVEMBER 2012** | |
| Financial Update Report | Cllr J Thompson-Hill / Paul McGrady |
| Items from Scrutiny Committees | Scrutiny Coordinator |
| | |
| **DECEMBER 2012** | |
| Welsh Housing Quality Standards | Lead Member / Peter McHugh |
| Financial Update Report | Cllr J Thompson-Hill / Paul McGrady |
| Items from Scrutiny Committees | Scrutiny Coordinator |
| | |

Updated 07/06/2012 KEJ

Yn rhinwedd Paragraff(au) 14 Rhan 4, Atodlen 12A
Deddf Llywodraeth Leol 1972.

Document is Restricted

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

Yn rhinwedd Paragraff(au) 14 Rhan 4, Atodlen 12A
Deddf Llywodraeth Leol 1972.

# Eitem Agenda 10

Document is Restricted

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

Document is Restricted

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

Yn rhinwedd Paragraff(au) 14 Rhan 4, Atodlen 12A
Deddf Llywodraeth Leol 1972.

Document is Restricted

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag